

Adroddiad ynghylch y prisiad actiwaraidd fel yr oedd ar 31 Mawrth 2022

Cronfa Bensiynau Clwyd



Tudalen Cynnwys

Adran 1: Rhagarweiniad	1
Adran 2: Y Strategaeth Gyllido – Elfennau Allweddol	2
Adran 3: Canlyniadau allweddol yr asesiad cyllido	4
Adran 4: Profiad ers y prisiad diwethaf	8
Adran 5: Llifau arian, risgiau a sefyllfaoedd cyllido gwahanol	10
Atodiad A: Tybiaethau	16
Atodiad B: Crynodeb o'r Data Aelodaeth	24
Atodiad C: Asedau	25
Atodiad D: Crynodeb o'r Buddion	26
Atodiad E: Dadansoddiad o brofiad yr aelodaeth.....	28
Atodiad F: Dangosfwrdd Prisio fel y cytunwyd â Bwrdd Ymgynghorol y Cynllun	29
Atodiad G: Tystysgrif Cyfraddau ac Addasiadau a roddir yn unol â Rheoliad 62.....	32
Atodiad H: Atodlen i'r Dystysgrif Cyfraddau ac Addasiadau yn ddyddiedig 30 Mawrth 2023.....	34
Atodiad I: Geirfa	43

Adran 1

Rhagarweiniad

Mae'r adroddiad hwn wedi'i gyfeirio at Awdurdod Gweinyddu Cronfa Bensiynau Clwyd ("yr Awdurdod Gweinyddu") ac fe'i darperir i fodloni gofynion Rheoliad 62 o Reoliadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol 2013 (fel y'u diwygiwyd) ("y Rheoliadau"). Mae'n disgrifio'r ffactorau y bu'r Awdurdod Gweinyddu'n eu hystyried wrth gynnal y prisiad actiwaraid fel yr oedd ar 31 Mawrth 2022 a'r penderfyniadau o ganlyniad i hynny.

Diben y prisiad actiwaraid yw bod yr Awdurdod Gweinyddu yn penderfynu:

1. Cost ddisgwyliedig darparu buddion a adeiladwyd gan aelodau ar y dyddiad prisio (y "rhwymedigaethau"), a chymharu hyn â'r cronfeydd y mae'r Gronfa'n eu dal (yr "asedau").
2. Y cyfraniadau sydd eu hangen i dalu am y buddion y bydd aelodau gweithredol yn eu cronni yn y dyfodol a chostau eraill a gyfyd wrth gynnal y Gronfa (y 'Cyfradd Gyfraniadau Sylfaenol').
3. Cynllun priodol ar gyfer sicrhau cyllid i dalu 100% o'r costau os yw asedau'r Gronfa'n fwy neu'n llai na'r rhwymedigaethau. Bydd y cynllun hwn yn ymdrin â'r symiau y bydd angen eu talu (y 'Cyfradd Gyfraniadau Eilaidd') a'r raddfa amser ar gyfer eu talu (y Cyfnod Adennill').

Llofnod



Enw

Paul Middleman

Michelle Doman

Cymhwyster

Cymrawd Sefydliad a
Chyfadrn yr Actiwariaid

Cymrawd Sefydliad a
Chyfadrn yr Actiwariaid

Dyddiad

30 Mawrth 2023

Defnyddir amryw dermau technegol yn yr adroddiad hwn. Esbonnir y rhain yn fanylach yn y blychau eglurhaol sy'n ymddangos gydol yr adroddiad, a cheir Geirfa hefyd yn Atodiad I. Dylid darllen yr adroddiad hwn ar y cyd â Datganiad y Strategaeth Gyllido a Datganiad y Strategaeth Fuddsoddi.

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol â Safonau Actiwaraid Technegol TAS 100: Egwyddorion ar gyfer Gwaith Actiwaraid Technegol a TAS 300: Pensiynau, a gyhoeddir gan y Cyngor Adrodd Ariannol. Mae'r cyfrifiadau y cyfeirir atynt yn yr adroddiad hwn yn seiliedig ar ddulliau a thybiaethau sy'n briodol ar gyfer adolygu sefyllfa ariannol y Gronfa a phennu cyfradd y cyfraniadau yn y dyfodol. Nid yw Mercer yn derbyn atebolrwydd i unrhyw drydydd parti ynghylch yr adroddiad hwn; nid ydym ychwaith yn derbyn atebolrwydd i'r Awdurdod Gweinyddu os defnyddir y wybodaeth a ddarperir yn yr adroddiad hwn at unrhyw ddiben ond yr un a ddatganwyd. Caniateir datgelu'r adroddiad hwn i aelodau ac eraill sydd â hawl statudol i'w weld. Gellir ei ddatgelu hefyd i unrhyw gyflogwr sy'n cyfranogi o'r cynllun, a thrydydd partion eraill os yw'r Awdurdod Gweinyddu a Mercer yn cydsynio.

Adran 2

Y Strategaeth Gyllido – Elfennau Allweddol

Mae'r strategaeth gyllido y mae'r Gronfa wedi'i mabwysiadu'n hanfodol i ganlyniadau'r prisiad. Cyflwynir y strategaeth gyllido mewn dogfen benodol (Datganiad y Strategaeth Gyllido) sy'n un o ddogfennau llywodraethu allweddol yr Awdurdod Gweinyddu ar gyfer y Gronfa. Yn y bôn, mae Datganiad y Strategaeth Gyllido'n rhoi gorolwg o'r dull y bwriedir ei ddefnyddio wrth gynnal y prisiad actiwaraid. Mae'n ymdrin, ymysg pethau eraill, â'r tybiaethau economaidd a demograffig a ddefnyddir wrth gyfrifo gwerth y rhwymedigaethau sydd wedi cronni, y cyfraniadau sy'n ofynnol i gywiro unrhyw ddiffyg neu warged, a'r raddfa gyfraniadau sy'n ofynnol i gyllido'r buddion ar gyfer gwasanaeth yn y dyfodol. Mae hefyd yn pennu'r strategaeth ar gyfer adennill unrhyw ddiffyg cyllid, ac yn benodol sut y disgwylir talu'r diffyg yng nghyd-destun y gwahaniaeth rhwng cyfraniadau a'r elw o fuddsoddiadau yn y dyfodol, ac os oes diffyg neu warged, y cyfnod y disgwylir y caiff unrhyw ddiffyg ei adennill neu unrhyw warged ei wario.

Datganiad y Strategaeth Gyllido yw dogfen lywodraethu allweddol yr Awdurdod Gweinyddu yng nghyswllt y prisiad actiwaraid. Mae'n pennu'r polisiâu cyllido a fabwysiadir, y tybiaethau actiwaraid a ddefnyddiwyd a'r graddfeydd amser y telir diffygion ynddynt. Ymgynghorir â chyflogwyr ynghylch Datganiad y Strategaeth Gyllido fel rhan o'r drefn brisio actiwaraid.

Y rhain yw elfennau pennaf y strategaeth gyllido a fabwysiadwyd ar gyfer y prisiad actiwaraid hwn:

- **Dyfarniad McCloud** (gweler y manylion yn Atodiad D) – llunio amcangyfrif penodol ar gyfer costau Dyfarniad McCloud, ac mae'r canlyniadau ar gyfer y Gronfa gyfan wedi'u nodi yn Adran 3 o'r adroddiad hwn. Mae'r rhwymedigaethau ar gyfer gwasanaeth yn y gorffennol ar ddyddiad y prisiad yn lwfans amcangyfrifedig ar gyfer y datrysiaid argymelledig yn sgil achos McCloud. Gan mai dyddiad terfyn y datrysiaid hwnnw yw 31 Mawrth 2022, nid yw'r Gyfradd Gyfraniadau Sylfaenol yn cynnwys lwfans ar gyfer McCloud.
- **Cyfradd dybiedig chwyddiant y Mynegai Prisiau Defnyddwyr yn y dyfodol ar gyfartaledd dros y tymor hir** – 3.1% y flwyddyn ar sail yr arenillion y gellir eu cyflawni drwy giliau sefydlog a mynegai-gysylltiol â hyd addas, a thynnu 0.8% y flwyddyn (addasiad yn ôl y bwch strwythurol rhwng y Mynegai Prisiau Manwerthu a'r Mynegai Prisiau Defnyddwyr a phreimiwm rhag perygl chwyddiant).
- **Gwir arenillion buddsoddi uwchlaw'r Mynegai Prisiau Defnyddwyr ar gyfer gwasanaeth yn y gorffennol** – 1.5% y flwyddyn ar sail y gwir arenillion y rhagwelir y gellir eu cyflawni gyda strategaeth fuddsoddi hirdymor ddisgwyliedig y Gronfa, gan adael digon o le ar gyfer darbodusrwydd.
- **Gwir arenillion buddsoddi uwchlaw'r Mynegai Prisiau Defnyddwyr ar gyfer gwasanaeth yn y dyfodol** – 2.00% y flwyddyn ar sail y gwir arenillion y rhagwelir y gellir eu cyflawni gyda buddion a fuddsoddir yn y dyfodol.
- **Twf cyflogau yn y dyfodol** – 4% y flwyddyn yn y tair blynedd nes 31 Mawrth 2026 ac yna 1.25% y flwyddyn uwchlaw'r Mynegai Prisiau Defnyddwyr yn y tymor hwy.

Penderfynodd nifer fechan o gyflogwyr beidio â chynnwys y dybiaeth ynghylch cyflogau yn y tymor byr, gan dybio felly bod twf cyflogau'n 1.25% y flwyddyn uwchlaw'r Mynegai Prisiau Defnyddwyr am y cyfnod cyfan.

- **Disgwyliad oes sylfaenol** yn ôl astudiaeth ar farwolaethau yn benodol i'r cynllun.
- **Cyfraddau marwolaeth yn lleihau yn y dyfodol** yn ôl model CMI yn 2021, gan leihau 1.75% y flwyddyn yn y tymor hir.
- **Lwfans ar gyfer chwyddiant y Mynegai Prisiau Defnyddwyr sy'n hysbys ac yn amlwg** rhwng 1 Medi 2021 a 31 Mawrth 2022, er mwyn mân-gywiro'r amcangyfrif o orchymyn cynnydd pensiynau 2023 a llif arian ar gyfer rhwymedigaethau.
- Ar adeg y prisiad actiwaraid hwn mabwysiadwyd **cyfnod adennill cyfartalog** o ddeuddeg mlynedd. Os oes gan gyflogwr warged neu ddiffyg, bydd y cyfnod penodol yn dibynnu ar amgylchiadau'r cyflogwr dan sylw. Mae Datganiad y Strategaeth Gyllido'n manylu ynghylch yr amgylchiadau lle gallai'r cyfnod hwn amrywio o un cyflogwr i'r llall.




Adran 3

Canlyniadau allweddol yr asesiad cyllido

Y sefyllfa cyllido diddyledrwydd

Mae'r tabl isod yn cymharu asedau a rhwymedigaethau'r Gronfa fel yr oeddent ar 31 Mawrth 2022. Mae hefyd yn cynnwys ffigyrau'r prisiad diwethaf a gynhaliwyd ar 31 Mawrth 2019 er cymhariaeth.



*Nid yw sefyllfa 2019 yn cynnwys effaith amcangyfrifedig y datrysiad yn sgil dyfarniad McCloud. Byddai rhoi cyfrif am hynny wedi cynyddu'r diffyg yn 2019 i £186

Mae'n ofynnol dan Reoliadau'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol i bennu'r cyfraniadau er mwyn sicrhau diddyledrwydd y Gronfa a chost-ffeithlonrwydd hirdymor. Yn y cyd-destun hwn mae diddyledrwydd yn golygu medru talu'r rhwymedigaethau wrth iddynt godi, ac mae cost-ffeithlonrwydd hirdymor yn golygu na ddylid pennu lefelau'r cyfraniadau mewn ffordd a fydd yn creu costau ychwanegol yn y dyfodol. Yn ymarferol, pennwyd lefelau'r cyfraniadau er mwyn sicrhau lefel cyllido diddyledrwydd o 100% ar sail y terfynau cyllido a nodir yn Adran 2 uchod.

Gwerth y rhwymedigaethau ar 31 Mawrth 2022 fel y gwelir yn y siart uchod yw'r "**targed cyllido diddyledrwydd**". Cyfrifir y targed cyllido diddyledrwydd ar sail tybiaethau y mae'r Awdurdod Gweinyddu wedi penderfynu eu bod yn briodol wedi ymgynghori â'r Actiwari, ac y manylir yn eu cylch yn Natganiad y Strategaeth Gyllido.

Dengys y siart fod yno **warged o £125 miliwn ar 31 Mawrth 2022** uwchlaw targed cyllido diddyledrwydd y Gronfa. Ffordd arall o gyfleu sefyllfa fyddai **bod asedau'r Gronfa'n ddigonol i dalu 105% o'i rhwymedigaethau** – y ganran hon yw lefel cyllido diddyledrwydd y Gronfa.

Pan gynhaliwyd y prisiad diwethaf ar 31 Mawrth 2019 roedd diffyg o £177 miliwn, sef lefel cyllido diddyledrwydd o 91%. Ymdrinnir â'r rhesymau pennaf am y newid rhwng y ddau brisiad yn Adran 4.

Manylir ymhellach ynghylch y dull a ddefnyddiwyd i gyfrifo'r targed cyllido diddyledrwydd yn Atodiad A.

Y Gyfradd Gyfraniadau Sylfaenol

Wrth gynnal y prisiad ystyrir y gyfradd gyfraniadau arferol y mae'n ofynnol i gyflogwr ei thalu i gwrdd â chostau buddion (gan gynnwys buddion marwolaeth a threuliau) a gronnir yn ystod y flwyddyn ar ôl y dyddiad prisio (y "Gyfradd Gyfraniadau Sylfaenol"). Ceir crynodeb o'r tybiaethau a ddefnyddiwyd yn Atodiad A.

Mae'r tabl isod yn dadansoddi'r Gyfradd Gyfraniadau Sylfaenol fel yr oedd ar 31 Mawrth 2022 ynghyd â'r gyfradd gyfatebol ar 31 Mawrth 2019 er cymhariaeth. Wrth gyfrifo cyfartaledd y Gyfradd Gyfraniadau Sylfaenol nid ydym wedi lwfio ar gyfer aelodau yn y dyfodol yn dewis y cynllun 50:50. Mae aelodau gweithredol yn talu cyfraniadau i'r Gronfa fel amod ar eu haelodaeth yn unol â'r cyfraddau sy'n ofynnol dan y Rheoliadau sydd mewn grym (gweler Atodiad D).

Y "gyfradd sylfaenol" ar gyfer cyfraniad pob cyflogwr yw cyfradd y cyfraniadau sy'n ofynnol i dalu costau'r buddion sy'n cronni yn y dyfodol, gan gynnwys buddion ategol, marw yn y swydd ac afiechyd yn ogystal â chostau gweinyddu.

Y Gyfradd Gyfraniadau Sylfaenol	% o Gyflog Pensiynadwy	
	31 Mawrth 2019	31 Mawrth 2022
Y gyfradd gyfraniadau arferol ar gyfer ymddeoliad a buddion marwolaeth	22.7	24.3
Lwfans ar gyfer costau gweinyddol	0.8	0.8
Cyfanswm y gyfradd gyfraniadau arferol	23.5	25.1
Cyfradd gyfraniadau aelodau ar gyfartaledd	6.2	6.3
Cyfradd gyfraniadau sylfaenol*	17.3**	18.8

*Yn unol â chyfarwyddyd y Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth, mae'r Gyfradd Gyfraniadau Sylfaenol yn gyfartaledd pwysol o Gyfraddau Gyfraniadau Sylfaenol pob cyflogwr unigol sy'n seiliedig ar eu hamgylchiadau penodol (er enghraifft, p'un a yw'r cynllun yn derbyn aelodau newydd neu beidio).

**Nid yw cyfradd 2019 yn cynnwys cyfraniad cyfartalog o 0.5% y mae cyflogwyr yn ei dalu i gwrdd â chostau dyfarniad McCloud a fyddai'n cronni nes dyddiad terfyn y datrysiaid ar 31 Mawrth 2022.

Unioni'r anghydbwysedd: y Gyfradd Gyfraniadau Eilaidd

Yr amcan cyllido a bennir yn Natganiad y Strategaeth Gyllido yw cyflawni a chynnal lefel cyllido sy'n gyfwerth â 100% o'r rhwymedigaethau (y targed cyllido diddyledrwydd). Yn unol â Datganiad y Strategaeth Gyllido, os oes diffyg ar ddyddiad y prisiad, gweithredir cynllun adennill a fydd yn gofyn am gyfraniadau ychwanegol i dalu'r diffyg. Yn yr un modd, os oes gwarged ar ddyddiad y prisiad mae'n briodol fel arfer i'w neilltuo ar gyfer talu cyfraniadau am wasanaeth yn y dyfodol, ac fe geir gostyngiad mewn cyfraniadau yn gyfnewid am hynny.

Mae Datganiad y Strategaeth Gyllido'n pennu'r drefn ar gyfer penderfynu'r cynllun adennill ar gyfer pob cyflogwr. Ar adeg y prisiad actiwaraid hwn mabwysiadwyd cyfnod adennill cyfartalog o ddeuddeg mlynedd.

Os oes gan gyflogwr waged neu ddiffyg, bydd y cyfnod penodol a bennir yn dibynnu ar



Mae "cyfradd eilaidd" pob cyflogwr yn addasiad o'r y Gyfradd Gyfraniadau Sylfaenol ar sail unrhyw ddiffyg neu waged yn y gorffennol, er mwyn cyfrifo'r gyfradd y mae'n ofynnol i'r cyflogwr ei thalu.

amgylchiadau'r cyflogwr dan sylw. Neilltuir oddeutu £6 miliwn y flwyddyn ar gyfer cyfanswm y taliad adennill cychwynnol (y "gyfradd eilaidd" ar gyfer 2023/24), sy'n lwfio ar gyfer y cynlluniau cyfraniadau a bennwyd ar gyfer cyflogwyr unigol dan ddarpariaethau Datganiad y Strategaeth Gyllido, gan gynnwys lwfans i rai cyflogwyr gyflwyno codiadau'n raddol neu dalu eu cyfraniadau at ddiffyg o flaen llaw - mae Atodiad G yn cynnwys manylion llawn ynglŷn â chyfanswm y cyfraddau eilaidd ymhob blwyddyn yn ystod cyfnod y dystysgrif cyfraniadau).



Dyfarniad McCloud

Fel y disgrifir yn Adran 2 o'r adroddiad hwn, lluniom amcangyfrif penodol ar gyfer costau dyfarniad McCloud. Amcangyfrifwn y bydd y dyfarniad yn cynyddu swm y rhwymedigaethau ar gyfer gwasanaeth yn y gorffennol oddeutu £26 miliwn ar ddyddiad y prisiad. Mae hynny'n gyfwerth ag oddeutu 1.1% o gyfanswm y rhwymedigaethau ar gyfer gwasanaeth yn y gorffennol ac wedi'i gynnwys yn swm rhwymedigaethau 2022 uchod. Lwfiwyd rhag costau amcangyfrifedig McCloud yn y Gyfradd Gyfraniadau Eilaidd uchod a'r Gyfradd Gyfraniadau Eilaidd y mae pob cyflogwr unigol yn ei thalu.

Mae "dyfarniad McCloud" yn cyfeirio at her gyfreithiol ynghylch newidiadau ym muddion pob cynllun sector cyhoeddus yn y gorffennol a oedd yn gwahaniaethu ar sail oedran. Cyhoeddodd y Llywodraeth ymgynghoriad fis Gorffennaf 2020 gan argymhell datrysiad ar gyfer y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol. Mae hynny'n debygol o gynyddu'r costau i rai cyflogwyr. Disgwyliwn y daw'r rheoliadau ar gyfer y datrysiad i rym ym mis Hydref 2023 ac y byddant yn ôl-weithredol nes Ebrill 2014 yng Nghymru a Lloegr, a chyfnod y datrysiad yn dod i ben ar 31 Mawrth 2022.

Adran 4

Profiad ers y prisiad diwethaf

Crynodeb o'r profiadau allweddol rhwng prisiadau

Daeth y prisiad actiwaraid diwethaf a gynhaliwyd yn weithredol ar 31 Mawrth 2019.

3.8% oedd y cynnydd cyfartalog yng nghyflogau pensiynadwy'r aelodau hynny o'r Gronfa a oedd mewn gwasanaeth yn holl ystod y cyfnod rhwng prisiadau.

Cynnyddwyd y pensiynau a delir (uwchlaw'r Isafsymiau Pensiwn Gwarantedig) yn unol â'r hyn a warantwyd gan y Gronfa, sef:

1. Ebrill 2020 1.7%
2. Ebrill 2021 0.5%
3. Ebrill 2022 3.1%


Yn ystod y cyfnod rhwng prisiadau, bu chwyddiant buddion yn 1.8% y flwyddyn ar gyfartaledd. Yn y tair blynedd hyd 31 Mawrth 2022, cafwyd arenillion gros o 10.2% y flwyddyn ar gyfartaledd ar fuddsoddi asedau'r Gronfa, sy'n golygu y bu'r gwir elw uwchlaw chwyddiant y Mynegai Prisiau Defnyddwyr tua 8.3% y flwyddyn.

Yn ogystal â'r gorchmynion cynnydd pensiynau a gyhoeddwyd, rydym wedi lwfio rhag chwyddiant y Mynegai Prisiau Defnyddwyr sy'n hysbys ac yn amlwg yn ystod y cyfnod rhwng 1 Medi 2021 a 31 Mawrth 2022 a bydd gorchymyn cynnydd pensiynau Ebrill 2023 yn adlewyrchu hynny.

Mae canlyniadau'r prisiad yn dibynnu ar y tybiaethau a fabwysiadir ar gyfer y dyfodol a phrofiad y Gronfa yn y gorffennol o gymharu â'r tybiaethau a wnaed o'r blaen. Yn yr adran hon byddwn yn ymdrin ag effaith profiad y Gronfa dros y tair blynedd diwethaf.

Rhesymau dros y newid yn y sefyllfa gyllido ers y prisiad actiwaraid diwethaf

Roedd diffyg o £177 miliwn ar ddyddiad y prisiad diwethaf, o gymharu â gwarged o £125 miliwn ar adeg y prisiad hwn. Yn y siart isod, nodir y prif resymau am y newid yn y diffyg rhwng Mawrth 2019 a Mawrth 2022 (mae'r ffigurau mewn miliynau).




Adran 5

Llifau arian, risgiau a sefyllfaoedd cyllido gwahanol

Llifau arian ar ffurf buddion

Mae'r llifau arian a ragwelir ar ffurf buddion, sy'n deillio o ddefnyddio'r tybiaethau a bennir yn Adran 2, wedi'u dangos yn y siart isod. Mae'r dueddlin ychwanegol yn dangos sut fyddai cyfanswm y llifau arian rhagestynedig ar ffurf buddion yn newid pe byddem yn tybio y bydd chwyddiant 0.25% y flwyddyn yn uwch na'r 3.1% y flwyddyn a dybiwyd ar gyfer y prisiad actiwaraid. Yn yr ugain mlynedd wedi dyddiad y prisiad, rhagamcanir y byddai gwerth £68 miliwn o daliadau buddion ychwanegol yn deillio o dybio y bydd chwyddiant 2.5% yn uwch.

Mae a wnelo prisio actiwaraid yn bennaf â rhagamcanu'r holl llifau arian ar ffurf buddion yn y dyfodol, a'u trosi'n werthoedd cyfredol drwy ddefnyddio disgownt ar sail yr elw y tybir y bydd buddsoddiadau'n ei greu yn y dyfodol. Mae'r siart yn dangos rhagamcan o'r llifau arian hynny a hefyd yn dangos mor bwysig ydynt i'r dybiaeth ynghylch chwyddiant yn y dyfodol.



Rhagamcan o'r sefyllfa gyllido ar adeg y prisiad actiwaraid nesa

Wrth gynnal y prisiad hwn mae'r Awdurdod Gweinyddu wedi pennu cynllun adennill diffyg cyfartaledd am oddeutu deuddeg mlynedd. Daw'r prisiad actiwaraid nesa a gynhelir yn weithredol ar 31 Mawrth 2025. Os bydd y profiad hyd hynny'n gyson â'r tybiaethau a wnaed ar gyfer y prisiad actiwaraid hwn a bod y cyfraniadau wedi'u talu'n unol â'r cyfraddau neu'r symiau a gytunwyd, bydd yno waged o £106 miliwn ar 31 Mawrth 2025, a fyddai'n gyfwerth â lefel cyllido o 104%.

Risgiau arwyddocaol y mae'r Gronfa'n eu hwynebu

Mae'r Gronfa'n agored i rai risgiau a allai fod yn arwyddocaol ac sydd, i ryw raddau, y tu hwnt i reolaeth yr Awdurdod Gweinyddu ond a fedrai effeithio ar y lefel cyllido a swm y cyfraniadau y mae'n ofynnol i'r cyflogwyr eu talu. Pe byddai'r lefel cyllido'n dirywio'n sylweddol byddai gofyn am ychwaneg o gyfraniadau (boed hynny drwy gynyddu'r gyfradd neu dalu'r un gyfradd am gyfnod hwy) er mwyn medru darparu'r buddion sydd wedi cronni yn y Gronfa – oni bai fod profiadau eraill yn cyfrannu at wella'r lefel cyllido. Mae gan y Gronfa fframwaith rheoli risg sy'n lliniaru ar amryw risgiau allweddol, a rhoddir ystyriaeth i hynny wrth bennu'r tybiaethau priodol ar gyfer cyfraddau disgownt wedi'u haddasu yn ôl risg.

Mae cyllido cynllun pensiwn â buddion wedi'u diffinio fel y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol, sy'n agored i aelodau newydd, yn ansicr yn ei hanfod ac mae'n golygu elfen o risg. Y risgiau cyllido pennaf yw buddsoddiadau (er enghraifft, a yw'r Gronfa'n cyflawni'r swm o arenillion hirdymor a ddymunir) a demograffeg (er enghraifft, a yw aelodau'n byw'n hwy na'r disgwyl neu beidio). Yn ymarferol, y peth pwysicaf i'w ystyried yw a oes modd rheoli'r risgiau hyn a lliniaru arnynt.

Mae'r risgiau hyn, a dulliau'r Awdurdod Gweinyddu o'u rheoli, yn cynnwys:

- Os bydd Cyflogwr yn colli'r gallu i dalu cyfraniadau neu dalu diffygion yn y dyfodol, bydd asedau'r Gronfa'n llai na'r disgwyl a bydd y lefel cyllido'n waeth na'r disgwyl. Mae'r Awdurdod Gweinyddu'n cadw golwg gyson ar nerth ariannol y cyflogwyr fel y gellir cymryd camau i liniaru ar risgiau (ond heb eu dileu'n llwyr).
- Os bydd arenillion ar fuddsoddi asedau yn y dyfodol yn llai na'r hyn a dybiwyd wrth gynnal y prisiad, bydd asedau'r Gronfa'n llai na'r disgwyl a'r lefel cyllido'n waeth na'r disgwyl. Mae gan yr Awdurdod Gweinyddu drefn ar gyfer monitro perfformiad buddsoddiadau bob tri mis, ac mae'n adolygu strategaeth fuddsoddi'r Gronfa yn ystod pob prisiad actiwaraid. Mae'r fframwaith rheoli risg yn cynnwys elfen o ragfantoli, sy'n rhoi mwy o sicrwydd ynglŷn ag arenillion yn y dyfodol o gymharu â chwyddiant, ac felly'n rhoi canlyniadau mwy sefydlog.
- Fel rhan o'i fframwaith rheoli risg cyffredinol mae'r Gronfa hefyd wedi llunio strategaeth "gwarchod ecwiti" sydd i ryw raddau'n diogelu gwerth asedau'r Gronfa pe byddai cwmp yn y farchnad ecwitiai (ceir rhagor o fanylion yn Natganiad y Strategaeth Fuddsoddi ar wefan y Gronfa).
- Os bydd chwyddiant y Mynegai Prisiau Defnyddwyr yn fwy na'r hyn a dybiwyd am gyfnod estynedig, bydd taliadau buddion (ac felly rhwymedigaethau'r Gronfa) yn fwy na'r disgwyl a gallai hynny arwain at gynyddu cyfraniadau'r cyflogwyr wrth gynnal prisiadau yn y dyfodol. Fel rhan o'i fframwaith rheoli risg mae'r Gronfa'n buddsoddi mewn asedau (Buddsoddiadau a Lywir gan Rwymedigaethau) sydd â chydberthynas uniongyrchol â chwyddiant y Mynegai Prisiau Manwerthu ynghyd ag asedau eraill sydd â chydberthynas anuniongyrchol â chwyddiant. Felly, bydd modd lliniaru ar yr effaith ar sail y sefyllfa rhagfantoli gyffredinol ac mae'r Awdurdod Gweinyddu'n monitro hyn yn gyson (ceir rhagor o fanylion yn Natganiad y Strategaeth Fuddsoddi).
- Os bydd disgwyliad oes yn gwella'n fwy na'r disgwyl, bydd costau buddion yn cynyddu wrth i'r aelodau fyw'n hŷn na'r disgwyl. Bydd hynny'n golygu bod y lefel cyllido'n waeth na'r disgwyl. Mae'r Awdurdod Gweinyddu'n adolygu profiad y Gronfa'n gyson ac yn sicrhau bod y tybiaethau a wna ynglŷn â disgwyliad oes yr aelodau'n seiliedig ar y wybodaeth ddiweddaraf sydd ar gael.

- Os bydd aelodau'n penderfynu o blaid dewisiadau sy'n cynyddu rhwymedigaethau'r Gronfa, bydd y lefel cyllido'n waeth na'r disgwyl. Gallai hyn ddigwydd, er enghraifft, pe byddai aelodau'n cymudo llai o'u pensiwn am arian parod na'r hyn sydd wedi'i dybio. Mae'r Awdurdod Gweinyddu'n adolygu profiad y Gronfa pan gynhelir pob prisiad er mwyn sicrhau ei fod yn dal yn ymdrin yn briodol â dewisiadau'r aelodau.

Profiad ar ôl dyddiad y prisiad a chynnaladwyedd y cyfraniadau

Mae canlyniadau'r prisiad a chyfraniadau'r cyflogwr fel y'u cyflwynir yn yr adroddiad hwn yn rhai a aseswyd ar 31 Mawrth 2022. Rydym wedi gweld cryn ansefydlogrwydd mewn marchnadoedd ariannol oherwydd cyfuniad o effaith parhaus y pandemig COVID19 ar ddisgwyliad oes, y rhyfel rhwng Rwsia a Wcráin, y "gyllideb gryno" fis Medi 2022 a chodiadau llym mewn chwyddiant yn y tymor byr a'r tymor canolig. Mae'n bosib y gallai hyn achosi canlyniadau pellgyrhaeddol o ran cyllido a risg, a bydd angen adolygu hyn yn gyson.

Credwn ei bod yn bwysig pwysu a mesur y sefyllfa yn hytrach na phenderfynu ar unwaith yn sgil cyfres o ddigwyddiadau na welwyd erioed eu tebyg o'r blaen. Yn benodol, rydym wedi ystyried y ffactorau canlynol wrth bennu'r tybiaethau terfynol i'w mabwysiadu, a hefyd wedi amlygu'r risgiau posib i'r cyflogwyr ynghylch cynnaladwyedd y cyfraniadau. Bydd yr Awdurdod Gweinyddu'n adolygu'r sefyllfa'n barhaus ac yn monitro datblygiadau, ac yn hysbysu'r holl fudd-ddeiliaid o unrhyw oblygiadau posibl fel y gellir rheoli'r canlyniad yn effeithiol.

Bregusrwydd y sefyllfa gyllido rhag newidiadau yn y tybiaethau allweddol

Mae'r gwerth a bennir ar gyfer rhwymedigaethau'r Gronfa'n llwyr ddibynnol ar y tybiaethau a ddefnyddir wrth wneud y cyfrifiadau. Os bydd profiad yn y dyfodol yn wahanol i'r hyn y mae'r Awdurdod Gweinyddu wedi'i dybio yn sgil ymgynghori â'r cyflogwyr, yna bydd y rhagamcan o'r lefel cyllido yn y dyfodol yn wahanol i'r hyn a nodir uchod.

Er mwyn dangos mor fregus yw'r lefel cyllido rhag profiadau gwahanol i'r hyn a dybiwyd, mae'r tabl isod yn dangos sut fyddai canlyniadau prisiad 31 Mawrth 2022 wedi bod yn wahanol pe byddai'r tybiaethau allweddol wedi newid ychydig.

Newid mewn tybiaeth	Gwarged wedi gostwng ar 31 Mawrth 2022 (£miliynau)	Gwarged (diffyg) sy'n weddill ar 31 Mawrth 2022 (£miliynau)
Y sefyllfa wreiddiol ar gyfer cyllido diddyledrwydd	0	125
Gwir arenillion ar fuddsoddiadau (er enghraifft, arenillion uwchlaw chwyddiant) 0.25% y flwyddyn yn llai na'r hyn a dybiwyd	101	24
Twf cyflogau pensiynadwy 0.25% y flwyddyn yn fwy na'r hyn a dybiwyd	15	110
Gwelliant hirdymor o 0.25% y flwyddyn mewn disgwyliad oes	17	108
Cwmp o 25% yng ngwerth asedau	623	(498)


Mae'r ffigyrau uchod yn ystyried pob effaith ar wahân. Yn ymarferol, bydd fframwaith rheoli risg y Gronfa'n lliniaru ar y risgiau ariannol i amryw raddau.

Newid hinsawdd

Mae'n bosib y gallai newid hinsawdd beri risg ariannol arwyddocaol i'r Gronfa – boed hynny ar ffurf y costau wrth symud i economi carbon isel, costau difrod ffisegol o ganlyniad i newid hinsawdd neu hyd yn oed rheoliadau/achosion llys i fynd i'r afael â hen arferion. Disgwylir y bydd newid hinsawdd yn effeithio ar y rhan helaeth o'r risgiau uchod, neu bob un ohonynt, ond nid oes sicrwydd ynghylch graddfa'r effeithiau hynny na sut y byddent yn ymwneud â'i gilydd. Fel rhan o'r prisiad hwn mae'r Awdurdod Gweinyddu wedi ystyried effaith gymharol y sefyllfaoedd canlynol ar gyllido dros amser, a cheir crynodeb o'r canlyniadau isod (mae Atodiad A yn cynnwys y tybiaethau allweddol sy'n sail ar gyfer y sefyllfaoedd hyn).

Nid yw cyflwyno'r sefyllfaoedd hyn yn ymdrech i ddarogan effaith newid hinsawdd, ond yn hytrach yn ffordd o ddangos yr effeithiau sy'n gysylltiedig â'r risgiau wrth bontio (tymor byr) a'r risgiau ffisegol (hirdymor) mewn tair o wahanol sefyllfaoedd. Rydym wedi darparu rhagor o fanylion ynglŷn â'r dadansoddiad i'r Awdurdod Gweinyddu mewn adroddiad cyngori ar wahân ac mae'r wybodaeth a gyflwynir yma'n grynodeb o'r adroddiad hwnnw. Ystyriwyd y risgiau posib sy'n gysylltiedig â newid hinsawdd wrth bennu'r tybiaethau yn yr adroddiad hwn. Dyma'r tair o sefyllfaoedd a fu dan sylw:

- **Pontio'n chwim** - Cyfuniad o bolisiâu a datblygiadau technolegol yn cyflawni lleihad chwim mewn allyriadau a chyfyngu cynhesu i lai na 1.5°. Mae yno gostau pontio arwyddocaol yn gysylltiedig â hyn a fyddai'n lleihau elw.
- **Pontio'n drefnus** - Mynd ati ar unwaith i leihau allyriadau gyda chymorth datblygiadau technegol. Llunnir y polisi i gynorthwyo â phontio gan gadw rheolaeth ar y costau.
- **Ceisio pontio a methu** - trefn bontio gyfyngedig a heb ei chydlynw. Mae allyriadau'n dal i gynyddu. Bach iawn yw'r risgiau wrth bontio ond daw risgiau ffisegol arwyddocaol i'r amlwg.



Mae Mercer o blaid cyfyngu cynhesu i 1.5 gradd Celsius ond mae'n cydnabod y gallai hynny beri ysgytwad tymor byr i bortffolios buddsoddi, ar sail y polisiâu a champau gweithredu presennol a'r ffaith bod y blaned yn dal i gynhesu ar hyn o bryd. Dylai buddsoddwyr drefnu eu portffolios yn unol â'u hamcanion gan ddeall hefyd yr effaith bosib y gallai risgiau pontio a difrod ffisegol eu cael.



Y sefyllfa gyllido risg leiaf

Wrth asesu gwerth rhwymedigaethau'r Gronfa (y targed cyllido diddyledrwydd), lwfiwyd ar gyfer yr elw ar fuddsoddiadau a ddisgrifir yn Atodiad A, gan ystyried y strategaeth fuddsoddi y mae'r Gronfa wedi'i mabwysiadu, fel y'i pennir yn Natganiad y Strategaeth Fuddsoddi.

Nid yw'n bosibl creu portffolio o fuddsoddiadau sy'n cynhyrchu ffrwd incwm sy'n cyfateb yn union i'r rhwymedigaethau y disgwylir eu talu. Mae modd, serch hynny, creu portffolio a fwriedir i gyfateb yn agos i'r rhwymedigaethau ac yn rhoi cryn sicrwydd mewn elw ar fuddsoddiadau yn y dyfodol o gymharu â chwyddiant y Mynegai Prisiau Defnyddwyr. Gelwir hynny'n sefyllfa fuddsoddi "risg leiaf". Byddai portffolio felly'n bennaf yn gymysgedd o giltiau mynegai-gysylltiol hirdymor a giltiau llog sefydlog. Byddai buddsoddi asedau'r Gronfa'n unol â'r portffolio risg leiaf yn lleihau anwadadrwydd yn lefel cyllido'r Gronfa o un prisiad actiwaraidd i'r llall, ond gallai olygu fod cyfraniadau cyflogwyr yn cynyddu'n sylweddol (gyda phopeth arall yn gyfartal).


Pe byddai'r Gronfa â buddsoddiadau yn y portffolio hwn ar ddyddiad y prisiad, yna ni fyddai'n briodol lwfio rhag unrhyw ragori ar berfformiad buddsoddiadau'r Gronfa wrth gynnal y prisiad hwn nac ar gyfer unrhyw breimiwm risg chwyddiant, gan y byddai'r risg wedi'i rhagfantoli'n llwyr. Mewn achos felly byddai gwerth rhwymedigaethau'r Gronfa wedi cynyddu'n sylweddol i £4,594 miliwn a'r lefel cyllido wedi gostwng yn sgil hynny i 54%. Os gwireddir y tybiaethau actiwaraidd yn ymarferol ac y telir cyfraniadau'n unol â'r Dystysgrif Cyfraddau ac Addasiadau ar gyfer yr holl gyflogwyr, y rhagamcan ar sail hynny fyddai bod y lefel cyllido'n cynyddu ychydig i 55% erbyn y prisiad actiwaraidd nesaf.

Seiliwyd y tybiaethau ynghylch y targed cyllido diddyledrwydd ar werth asedau o £2,366 miliwn, sy'n £2,228 miliwn yn llai na'r gwerth ar sail risg leiaf. Mae'r cynllun cyllido, felly, yn lwfio'n ddarbodus ar gyfer elw o £2,228 miliwn ar fuddsoddiadau uwchlaw'r enillion sydd ar gael o'r portffolio buddsoddi risg leiaf, i gynorthwyo â chyllido buddion aelodau ynghyd a'r cyfraniadau sy'n daladwy. Mae hyn yn rhoi awgrym o'r elw disgwyliedig y mae strategaeth gyllido'r Gronfa gyfan yn seiliedig arno.

Mae rheoli risg buddsoddi a risgiau eraill (er enghraifft, cyfamod y cyflogwr) yn un o amcanion allweddol yr Awdurdod Gweinyddu. Pennir y polisiau ar gyfer rheoli'r risgiau hynny yn Natganiadau'r Strategaeth Gyllido a'r Strategaeth Fuddsoddi.



Atodiadau



Atodiad A

Tybiaethau

Sut y pennir gwerth buddion

Er mwyn cyfrifo'r rhwymedigaethau mae angen gwneud tybiaethau ynglŷn ag amryw ffactorau a allai effeithio ar gost y buddion y mae'r Gronfa'n eu darparu – er enghraifft, am ba hyd y bydd aelodau'n byw, neu lefelau chwyddiant yn y dyfodol. Yn y tabl isod esbonnir y tybiaethau allweddol a wnaed wrth gynnal y prisiad hwn.

Tybiaeth	Pam ei fod yn bwysig a sut y mae'n effeithio ar y rhwymedigaethau
Cyfradd disgownt	Telir y rhan helaeth o'r buddion mewn cronfa bensiynau ymhell yn y dyfodol. Yn y cyfnod cyn talu'r buddion, mae'r Awdurdod Gweinyddu'n buddsoddi'r arian yn y Gronfa gyda'r nod o gyflawni elw ar yr arian hwnnw. Wrth gyfrifo swm yr arian sydd ei angen yn awr i dalu'r buddion, mae'n briodol lwfio ar gyfer yr elw ar fuddsoddiadau y disgwylir eu cyflawni gyda'r arian dan sylw. "Disgowntio" yw hynny. Po fwyaf yw'r elw a enillir ar fuddsoddiadau, po leiaf yr arian y bydd angen ei neilltuo'n awr ar gyfer talu buddion yn y dyfodol. Mae'r cyfrifiad yn adlewyrchu hynny drwy roi llai o werth ar y rhwymedigaethau os yw'r "gyfradd disgownt" yn uwch.
Chwyddiant	Mae pensiynau sy'n cael eu talu, rhai wedi'u gohirio a chronfeydd Enillion Cyfartalog Gyrfa wedi'u Hailbrisio ar gyfer aelodau gweithredol yn cynyddu'n unol â chwyddiant Prisiau Defnyddwyr. Fel arfer mae twf cyflogau hefyd yn gysylltiedig â chwyddiant prisiau yn y tymor hir. Os tybir y bydd chwyddiant yn uwch, pennir gwerth uwch ar y rhwymedigaethau, gyda phopeth arall yn gyfartal.
Twf Cyflogau Pensiynadwy	Mae'r buddion y mae aelodau gweithredol wedi'u hennill cyn 1 Ebrill 2014 yn seiliedig ar eu cyflogau'n syth cyn iddynt ymddeol a thelir eu buddion Enillion Cyfartalog Gyrfa wedi'u Hailbrisio ar sail eu cyflog bob blwyddyn, ac felly mae'n rhaid gwneud tybiaeth ynglŷn â thwf Cyflogau Pensiynadwy yn y dyfodol. Po fwyaf yw'r swm a dybir, po fwyaf yw'r gwerth a roddir ar y rhwymedigaethau ar gyfer aelodau gweithredol. Yn yr un modd, bydd twf cyflogau'n effeithio ar y rhwymedigaethau posib yn sgil dyfarniad McCloud gan fod y dybiaeth yn effeithio ar werth y cyflogau terfynol y mae'r pensiynau'n seiliedig arnynt.
Disgwyliad oes	Telir pensiynau tra bod yr aelod (ac efallai eu priod neu bartner) yn fyw. Po hynaf y mae pobl yn byw, po fwyaf yw'r gost o ddarparu pensiwn iddynt. Mae lwfio rhag cynnydd mewn disgwyliad oes, felly, yn cynyddu'r rhwymedigaethau.

Cyfrifir rhwymedigaethau'r Gronfa drwy ragamcanu'r holl lifau arian ar ffurf buddion yn y dyfodol a'u disgowntio'n ôl i'r dyddiad y daw'r prisiad yn weithredol, ar sail y tybiaethau hyn. Er enghraifft, cyfrifir y rhwymedigaethau ar gyfer un pensiynwr drwy amcangyfrif swm pob taliad pensiwn a dderbyniant yn y dyfodol, lluosu hynny â'r tebygolrwydd y bydd yr aelod yn dal yn fyw erbyn dyddiad pob taliad, a disgowntio pob taliad yn ôl i'r dyddiad y daw'r prisiad yn weithredol gan ddefnyddio'r gyfradd disgownt briodol, ac adio pob un o'r symiau wedi'u disgowntio at ei gilydd. Cyfrifir rhwymedigaethau'r Gronfa gyfan drwy adio'r rhwymedigaethau ar gyfer pob un o'r aelodau at ei gilydd.

Y tybiaethau ariannol a ddefnyddir wrth gyfrifo'r targed cyllido diddyledrwydd

Yn y tabl isod ceir crynodeb o'r tybiaethau ariannol allweddol a ddefnyddiwyd wrth gyfrifo'r targed cyllido diddyledrwydd ar gyfer y Gronfa gyfan a'r rhai a ddefnyddiwyd ar gyfer prisiaid actiwaraid 2019. Defnyddiwyd cromliniau arenillion llawn wrth gyfrifo'r rhwymedigaethau. Cyflwynir brasamcan o'r cyfraddau unigol cyfatebol er gwybodaeth.

Tybiaethau ariannol	31 Mawrth 2019	31 Mawrth 2022
Cyfradd disgownt	4.15% y flwyddyn	4.60% y flwyddyn
Chwyddiant prisiau (Mynegai Prisiau Defnyddwyr)	2.40% y flwyddyn	3.10% y flwyddyn
Codiadau cyflog (tymor byr)	2% y flwyddyn am 4 blynedd	4% y flwyddyn am 3 blynedd
Codiadau cyflog (hirdymor)	3.65% y flwyddyn	4.35% y flwyddyn
Cynnydd mewn pensiynau a delir	2.4% y flwyddyn	3.10% y flwyddyn

* Dewisodd y cyflogwyr beidio â chodi cyflogau yn y tymor byr neu'u codi 2% y flwyddyn am y pedair blynedd nes 31 Mawrth 2023.

* Dewisodd y cyflogwyr beidio â chodi cyflogau yn y tymor byr neu'u codi 4% y flwyddyn am y tair blynedd nes 31 Mawrth 2026.

Y dybiaeth ariannol allweddol yw'r arenillion hirdymor a ddisgwyliar ar fuddsoddiadau uwchlaw chwyddiant y Mynegai Prisiau Defnyddwyr, gan mai hynny fel arfer yw'r brif ffactor sy'n pennu'r costau hirdymor i'r cyflogwyr ar ffurf eu cyfraniadau. Wrth bennu hyn dechreuwn drwy ystyried y gwir arenillion hirdymor (hynny yw, arenillion uwchlaw'r Mynegai Prisiau Defnyddwyr) y gellir disgwyl i strategaeth fuddsoddi'r Gronfa eu cyflawni ar sail y rhagolygon o'r farchnad ar ddyddiad y prisiaid, gan ystyried sefyllfa llif arian ragestynedig y Gronfa. Ar sail y dadansoddiad hwnnw gallwn wedyn lunio argymhellion i'r Awdurdod Gweinyddu a dod i gytundeb ynghylch tybiaeth briodol o ddarbodus ar gyfer cyfradd disgownt y prisiaid sy'n seiliedig ar y strategaeth fuddsoddi a'r fframwaith rheoli risg sydd ar waith ac yn lwfio'n rhesymol rhag y newidiadau tebygol yn y strategaeth fuddsoddi wrth i'r Gronfa aeddfedu.

Defnyddiom efelychiad Monte Carlo (dull stocastig) wrth lunio ein dadansoddiad o'r gwir arenillion a ddisgwyliar ar fuddsoddiadau yn y dyfodol, yn seiliedig ar 4,000 o efelychiadau. Wrth ddadansoddi rydym yn nodi ac addasu amrywiaeth o fodelau economaidd a modelau o ddosbarthiadau asedau. Mae ein dadansoddiad yn defnyddio matrices cydberthynas asedau sy'n helpu i gynhyrchu pob efelychiad stocastig. Mae'r model yn cynnwys amcangyfrifon o'r arenillion hirdymor a lefelau chwyddiant a ddisgwyliar, ynghyd ag anwadalrwydd pob dosbarth asedau a lefelau chwyddiant.

Wrth ystyried mor ddarbodus y dylid bod, rydym yn ystyried y tebygolrwydd y bydd y gwir arenillion a gyflawnir ar asedau'r Gronfa'n fwy na'r hyn a dybiwyd. Mesurwn hyn drwy ystyried yr arenillion canraddol a ddisgwyliar ar sail y dadansoddiad. Gellir ystyried bod tybiaeth o arenillion sy'n rhagori ar yr hanner canfed canradd yn ddarbodus ar sail y dadansoddiad, ac yn gadael digon o le i fedru gwarchod rhag cynyddu cyfraniadau wrth gynnal prisiau yn y dyfodol.

Wrth gynnal y prisiaid actiwaraid hwn, defnyddiom wir gyfradd disgownt o 1.5% y flwyddyn, sydd yn yr wyth a thrigeinfed canradd ar sail ein dadansoddiad. Yn y prisiaid diwethaf defnyddiwyd gwir gyfradd disgownt o 1.75% y flwyddyn, a oedd ar y pryd yn y pump a thrigeinfed canradd. Mae'r gyfradd disgownt yn adlewyrchu goblygiadau'r fframwaith rheoli risg (gan gynnwys rhagfantoli a lefelau amddiffyn) sydd ar waith ar gyfer y Gronfa, ac felly i ba raddau y mae angen bod yn ddarbodus.

Tybiaethau demograffig a ddefnyddiwyd

Marwolaeth wedi ymddeol

Mae tablau marwolaeth (neu ddisgwyliad oes) fel arfer yn cynnwys tair o elfennau: tabl sylfaen (sy'n cyfateb i'r cyfraddau marwolaeth a ddisgwyliar ar hyn o bryd), lwfans ar gyfer gwelliannau yn y dyfodol, a lwfans ar gyfer ansicrwydd. Prin iawn yw'r cronfeydd pensiwn sy'n ddigon mawr i fedru pennu cyfres o dybiaethau neilltuol ei hunain wedi'u seilio'n llwyr ar eu profiadau o'r aelodaeth. Fel arfer, pennir tybiaethau ynghylch disgwyliad oes drwy feincnodi proffil aelodaeth y gronfa a'i phrofiad o farwolaethau yn erbyn setiau data allanol ac ehangach.

Ar gyfer y prisiad actiwaraid hwn, rydym wedi meincnodi proffil aelodaeth a phrofiad y Gronfa yn erbyn y "tablau S" y mae CMI yn eu cyhoeddi. Rydym wedi pwysoli a phennu dosbarthiadau oedran fel y bo'n briodol wrth addasu'r tablau safonol er mwyn llunio'r tybiaethau mwyaf priodol i'r Gronfa. Bu hynny'n seiliedig ar ein hastudiaeth fanwl â *Longevitas*, sy'n pwysoli ar sail amrywiaeth o agweddau ar ffyrdd pobl o fyw. Mae ein hadroddiad ar wahân yn cynnwys yr holl fanylion.

Wrth ymdrin â phrasiad 2019, rydym yn gyffredinol wedi defnyddio'r tablau S3PA (tablau "canol" ar gyfer benywod), yn ogystal â'r tablau S3DA ar gyfer dibynyddion benywaidd a'r tablau S3IA ar gyfer aelodau sy'n ymddeol oherwydd afiechyd.

Mae'r tabl isod yn nodi'r pwysoliadau a'r dosbarthiadau oedran a ddefnyddiwyd.

Rhaid penderfynu dau beth wrth dybio ynghylch marwolaethau:

- Y tabl sylfaen ar gyfer cyfraddau marwolaethau cyfredol;
- Y lwfans ar gyfer gwelliannau yn y dyfodol.

Sylfaen

Disgwyliad oes ar hyn o

Wedi'i fesur drwy astudiaeth o'r Cynllun

Newid yn y Dyfodol

Sut y gallai pethau newid

Mwy ansicr a goddrychol

Darbodusrwydd

Lwfio ar gyfer ansicrwydd

Statws Cyfredol	Math o Ymddeoliad	Pwysoliad / dosbarthiad oedran 2019	Pwysoliad / dosbarthiad oedran 2022
Pensiynwr	Iechyd Arferol	100% gwrywod, 92% benywod	114% gwrywod, 105% benywod
	Dibynnydd	132% gwrywod, 92% benywod	136% gwrywod, 119% benywod
	Afiechyd	122% gwrywod, 132% benywod	143% gwrywod, 170% benywod
	Dibynnydd yn y Dyfodol	128% gwrywod, 111% benywod	136% gwrywod, 119% benywod
Gweithredol	Iechyd Arferol	106% gwrywod, 93% benywod	117% gwrywod, 105% benywod
	Afiechyd	122% gwrywod, 142% benywod	256% gwrywod, 342% benywod
Gohiriedig	Pawb	128% gwrywod, 110% benywod	125% gwrywod, 111% benywod
Gweithredol/gohiriedig	Dibynnydd yn y Dyfodol	135% gwrywod, 118% benywod	134% gwrywod, 121% benywod

Mae cymhwyso pwysoliad i dabl actiwaraidd yn cynyddu neu'n lleihau'r tebygolrwydd o oroesi ymhob oedran, sydd yn ei dro'n cynyddu neu'n lleihau'r disgwyliad oes. Yn yr un modd, wrth gymhwyso dosbarthiad oedran i dabl actiwaraidd, tybir fod gan fuddiolwyr ddisgwyliad oes sy'n hafal i bobl hŷn (neu iau) na'u hoedran hwy.

Tybir y bydd gwelliannau yn y dyfodol yn efelychu model CMI yn 2021, sef tueddiad o wella 1.75% y flwyddyn yn hirdymor (Paramedr Llyfnhau o 7.5 gyda'r paramedrau eraill i gyd yn greiddiol; hynny yw, paramedr ar gyfer dim gwelliant cychwynnol a dim lwfans ar gyfer data 2020 neu 2021).

Roedd model CMI 2018 a ddefnyddiwyd ar gyfer prisiad 2019 yn cynnwys tuedd hirdymor 1.75% y flwyddyn.

Ar sail y tybiaethau ynghylch marwolaeth a ddefnyddiwyd ar gyfer prisiad 31 Mawrth 2022, cyfrifwyd disgwyliad oes fel a ganlyn.

	Blynyddoedd
Disgwyliad oes i ddyn 65 oed ar hyn o bryd	21.5
Disgwyliad oes i ddyn 45 oed ar hyn o bryd pan fydd yn 65	23.3
Disgwyliad oes i ddynes 65 oed ar hyn o bryd	23.9
Disgwyliad oes i ddynes 45 oed ar hyn o bryd pan fydd hi'n 65	26.0

Marwolaeth cyn ymddeol

Mabwysiadwyd y tablau marwolaeth isod (ynghyd ag unrhyw bwysoliadau a dosbarthiadau oedran sy'n briodol) ar gyfer cyfraddau marwolaeth yn y cyfnod cyn ymddeol.

	31 Mawrth 2019	31 Mawrth 2022
Tabl Sylfaen	Tablau DxL08 wedi'u haddasu 80% (gwryw) 50% (benyw) yn unol â phroffil aelodaeth y Gronfa	Tablau DxL08 wedi'u haddasu 80% (gwryw) 70% (benyw) yn unol â phroffil aelodaeth y Gronfa
Lwfans ar gyfer gwelliannau yn y dyfodol	CMI_2015 [1.5%]	CMI_2021 [1.75%]

Cymudo

Mae gan aelodau ddewis i gymudo rhan o'u pensiwn yn gyfnewid am gyfandaliad ar gyfradd o £12 mewn arian parod am bob £1 y flwyddyn o'r pensiwn a gaiff ei ildio. Wedi dadansoddi nifer yr aelodau sy'n dewis cymudo, tybiwyd y bydd 75% ar gyfartaledd o'r aelodau sy'n ymddeol yn cymryd yr uchafswm o arian di-dreth sydd ar gael wrth ymddeol. Mae hyn ychydig yn llai na'r hyn a dybiwyd ym mhreisiad actiwaraid 2019, a oedd yn gyfwerth â bod yr aelodau'n cymryd tua 80% o'r holl arian di-dreth oedd ar gael.

Mae talu cyfansymiau pan mae pobl yn ymddeol yn rhatach i'r Gronfa na'r dull arall o dal pensiwn, gan nad yw'r Aelodau ond yn cael £12 o bob £1 o bensiwn blyneddol a ildiant. Os yw aelod yn dewis cael cyfandaliad arian parod ar gyfradd uwch na'r hyn a dybiwyd, yna fel arfer byddai hynny'n gwella'r lefel cyllido.

Ymddeoliad Cynnar

O blith yr aelodau hynny sydd â'r hawl i dderbyn eu buddion cronedig (neu ran o'r buddion hynny) cyn troi'n 65 oed, tybir y bydd cyfran o'r aelodau gweithredol yn ymddeol mewn ieched arferol, fel y pennir isod:

Os yw mwy o aelodau'n ymddeol yn gynnar na'r hyn a ddisgwyllir, bydd hynny fel arfer yn golygu bod y lefel cyllido'n dirywio. Y rheswm am hynny yw bod yr aelodau'n medru cymryd rhannau sylweddol o'u buddion wedi troi'n 60 oed heb fod unrhyw ostyngiad am eu talu'n gynnar.

	% yn ymddeol bob blwyddyn	% yn ymddeol bob blwyddyn
Oedran	Dynion	Menywod
60	10	20
61	8	15
62	8	15
63	8	15
64	8	15
65	100	100

Fel arall, tybir y bydd yr holl fuddion eraill yn daladwy wedi troi'n 65 oed, a chymhwysir y ffactorau priodol ynghylch ymddeoliad cynnar i'r gyfran berthnasol o fuddion yn unol â chanllawiau Adran Actiwari'r Llywodraeth.

Mae'r tybiaethau'r un fath â phrisiad 2019.

Ymddeol oherwydd Afiechyd

Tybiwyd y bydd cyfran fechan o'r aelodau gweithredol wedi ymddeol oherwydd afiechyd. Dyma ddetholiad o'r tabl gostyngiad a ddefnyddiwyd, er enghraifft o'r cyfraddau a dybiwyd:

Mae lefel y buddion afiechyd a ddarperir i aelodau wedi'i rannu'n dair "haen" gan ddibynnu a fydd disgwyl i'r aelod penodol ddychwelyd i waith cyflogedig. Yn haen 1, er enghraifft, mae'r aelod yn annhebygol o fedru gwneud hynny cyn cyrraedd yr Oedran Pensiwn Arferol. Ceir manylion llawn yn Rheoliadau'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol a'r canllawiau ategol.

	% yn ymddeol bob blwyddyn	% yn ymddeol bob blwyddyn
Oedran	Dynion	Menywod
35	0.02	0.02
45	0.07	0.05
55	0.29	0.22

Mae'r tybiaethau'r un fath â phrisiad 2019.

Tybiwyd y bydd y gyfran o ymddeoliadau oherwydd afiechyd ymhob un o'r tair o haenau fel y pennir isod, wedi'i rannu yn ôl gwrywod a benywod (sydd yr un dybiaeth â'r un a ddefnyddiwyd ym mhrisiad 2019):

	Haen 1	Haen 2	Haen 3
Gwrywod	75%	12.5%	12.5%
Benywod	75%	12.5%	12.5%

Mae'r premiwm ar gyfer trefniant yswiriant daliedig rhai cyflogwyr hefyd yn deillio o'r tybiaethau hyn. Manylir ynghylch y trefniant hwn yn Natganiad y Strategaeth Gyllido a rhestrir y cyflogwyr hynny sy'n cyfranogi o'r trefniant yn Atodiad H.

Tynnu Pensiwn o'r Gronfa

Mae a wnelo'r dybiaeth hon â'r aelodau hynny sy'n ymadael â'r Gronfa a hwythau â'r hawl i bensiwn gohiriedig neu werth trosglwyddo. Tybiwyd y bydd aelodau gweithredol yn ymadael â'r gronfa ar y cyfraddau enghreifftiol a ganlyn:

	% yn ymadael bob blwyddyn	% yn ymadael bob blwyddyn
Oedran	Gwrywod	Benywod
25	20.25	22.38
35	5.09	6.27
45	2.54	3.89

Mae talu buddion gohiriedig a gronnodd cyn 2014 yn dueddol o fod yn rhatach i'r Gronfa na phe byddai'r aelod wedi dal i gyfranogi o'r Gronfa nes iddynt ymddeol. Os bydd mwy o aelodau'n ymadael â'r Gronfa na'r disgwyl, bydd hynny fel arfer yn golygu bod y lefel cyllido'n gwella ychydig.

Mae'r tybiaethau'r un fath â phrisiad 2019.

Cyfrannau Partneriaid a Dibynyddion

Tybiwyd y bydd y cyfrannau isod o'r aelodau, pan fyddant yn marw, yn destun pensiwn dibynnydd (priod neu bartner) ac y bydd gwŷr/partneriaid aelodau benywaidd dair blynedd yn hŷn na'r aelod ar gyfartaledd, a gwragedd/partneriaid aelodau gwrywaidd dair blynedd yn iau na'r aelod ar gyfartaledd.

	% priod/partner	% priod/partner
Oedran	Gwrywod	Benywod
25	43	51
35	69	68
45	72	68
55	74	68
65	76	62

Os bydd mwy o aelodau â phartneriaid na'r hyn a dybiwyd, bydd hynny'n cynyddu nifer y pensiynau dibynyddion a ddaw'n daladwy yn fwy na'r disgwyl. Byddai hynny'n golygu bod y lefel cyllido'n dirywio.

Newidiwyd y dybiaeth hon ers y prisiad diwethaf. Nodir y dybiaeth a ddefnyddiwyd bryd hynny yn adroddiad prisiad 2019.

Tybiaethau a ddefnyddiwyd wrth gyfrifo'r Gyfradd Gyfraniadau Sylfaenol

Cyfrifwyd cost y buddion sy'n cronni yn y dyfodol (y Gyfradd Gyfraniadau Sylfaenol) ar sail yr un tybiaethau actiwaraid â'r rhai a ddefnyddiwyd wrth gyfrifo'r targed cyllido diddyledrwydd a'r cynllun adennill fel y'u pennir uchod, ac eithrio'r tybiaethau ariannol a ddisgrifir isod.

Wrth wneud tybiaethau ariannol ar gyfer asesu cyfraddau cyfraniadau ar gyfer gwasanaeth yn y dyfodol, dylid rhoi sylw i'r ffaith y caiff cyfraniadau eu buddsoddi yn y farchnad dan amgylchiadau a fydd yn bodoli yn y dyfodol, sy'n anhysbys ar ddyddiad y prisiad, ac nad ydynt yn uniongyrchol gysylltiedig â chyflwr y farchnad ar y dyddiad priso.

Nid yw'r tybiaethau ariannol ynghylch gwasanaeth yn y dyfodol (hynny yw, y Gyfradd Gyfraniadau Sylfaenol) wedi'u cysylltu'n benodol â'r amodau buddsoddi ar ddyddiad y prisiad ei hun, ac maent yn

seiliedig ar y gwir arenillion a dybir yn gyffredinol (hynny yw, arenillion uwchlaw chwyddiant y Mynegai Prisiau Defnyddwyr), sef 2.00% y flwyddyn. Mae hynny'n gyfwerth â gostyngiad o 0.25% y flwyddyn o gymharu â phrisiad 2019, sy'n cynyddu'r amcangyfrif o'r gost o ddarparu buddion y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol. Ar sail tybiaeth y bydd prisiau'n destun chwyddiant o 3.10% y flwyddyn ar gyfartaledd yn hirdymor, mae hynny'n golygu cyfradd disgownt gyffredinol o 5.10% y flwyddyn (y gyfradd disgownt gyfatebol ar gyfer prisiad actiwaraid 2019 oedd 4.65% y flwyddyn).

Mae'n werth ystyried y dybiaeth, fodd bynnag, yng nghyd-destun y gwir arenillion hirdymor (hynny yw, arenillion uwchlaw'r Mynegai Prisiau Defnyddwyr) y gellir disgwyl i strategaeth fuddsoddi'r Gronfa eu cyflawni ar sail rhagolygon y farchnad ar hyn o bryd. Wrth gynnal y prisiad actiwaraid hwn, defnyddiom wir gyfradd disgownt o 2.00% y flwyddyn, sydd yn yr hanner cant a nawfed canradd ar sail ein dadansoddiad. Yn y prisiad diwethaf defnyddiwyd gwir gyfradd disgownt o 2.25% y flwyddyn, a oedd ar y pryd yn yr hanner cant a phumed canradd.

Modelu newid hinsawdd

Mae'r lefel cyllido'n cynnwys lwfans ar gyfer newid hinsawdd i'r fath raddau a ddisgwylir a'r hyn y mae marchnadoedd yn rhagfantoli ar ei gyfer. Rydym wedi dangos sut y gallai gwahanol sefyllfaoedd newid hinsawdd effeithio ar y rhagamcan o'r lefel cyllido yn adran 5.

Tybiaethau Modelu – effeithiau cronus ar elw

	Failed Transition	Rapid Transition	Orderly Transition
Asset Class	30/06/2022		
	40 Years	40 Years	40 Years
MSCI World Equity	-38.10%	-7.00%	-10.30%
Emerging Markets Equity	-45.70%	-6.30%	-8.20%
MSCI ACWI ESG Equity	-40.30%	-2.30%	-8.70%
MSCI Paris Aligned Equity	-39.80%	1.40%	-8.10%
Multi asset credit	-1.50%	-5.40%	-1.40%
Absolute Return Fixed Income	-1.00%	-3.10%	-1.30%
Global Investment Grade Credit	-2.10%	-2.40%	-1.30%
UK Sovereign Bonds	-0.80%	1.00%	0.30%
Global Senior Private Debt	-4.40%	-2.60%	-2.90%
Global Private Debt	-2.80%	-8.40%	-3.70%
Cash	-5.70%	2.00%	-0.90%
Listed Infrastructure	-21.00%	-22.30%	-26.50%
UK Real Estate	-38.90%	0.90%	-4.50%
Private Equity	-48.90%	-1.60%	-11.10%
ESG Private Equity	-51.60%	0.60%	-10.30%
Sustainable Infrastructure	-35.80%	0.70%	-4.70%
Hedge Fund	-5.70%	2.00%	-0.90%

Atodiad B

Crynodeb o'r Data Aelodaeth

Mae'r tabl yn cynnwys crynodeb o'r data aelodaeth ynghyd â'r ffigyrau adeg y prisiad diwethaf, er cymhariaeth.

Darparwyd data ynglŷn ag aelodau'r Gronfa gan weinyddwr y Gronfa ar ran yr Awdurdod Gweinyddu. Dibynnwyd ar gywirdeb y data a ddarparwyd. Er y gwiriwyd mor rhesymol yw'r data, nid yw hynny'n sicrhau bod y data'n gyflawn ac yn fanwl gywir. Felly, nid yw Mercer yn derbyn unrhyw atebolrwydd am gyngor y mae'n ei ddarparu ar sail data anghyflawn neu anghywir.

	31 Mawrth 2019	31 Mawrth 2022
<u>Aelodau gweithredol</u>		
Nifer	16,911	16,996
Cyfanswm y Cyflogau Pensiynadwy (mewn miloedd o bunnau'r flwyddyn)	253,011	295,838
Cyflog Pensiynadwy Cyfartalog (£ y flwyddyn)	14,961	17,406
Oedran cyfartalog (wedi'i bwysoli yn ôl pensiynau)	50.6	51.1
<u>Pensiynwyr gohiriedig (gan gynnwys rhai sydd heb benderfynu)</u>		
Nifer	18,342	17,361
Cyfanswm y pensiynau gohiriedig wedi'u hailbrisio'n ôl i ddyddiad y prisiad (mewn miloedd o bunnau'r flwyddyn)	22,274	22,414
Pensiwn gohiriedig cyfartalog (£ y flwyddyn)	1,214	1,291
Oedran cyfartalog (wedi'i bwysoli yn ôl pensiynau)	48.4	49.0
<u>Pensiynwyr (gan gynnwys dibynyddion)</u>		
Nifer	13,201	14,590
Cyfanswm y pensiynau sy'n daladwy (mewn miloedd o bunnau'r flwyddyn)	61,472	68,476
Pensiwn cyfartalog (£ y flwyddyn)	4,657	4,693
Oedran cyfartalog (wedi'i bwysoli yn ôl pensiynau)	71.2	71.8

Atodiad C

Asedau

Roedd asedau'r Gronfa'n werth £2,490,795,000 ar y farchnad ar ddyddiad y prisiad.

Nod strategaeth fuddsoddi'r Awdurdod Gweinyddu yw rhannu asedau'r Gronfa yn ôl y dosbarthiadau a nodir yn y tabl isod. Bydd union ddosbarthiad yr asedau'n amrywio o bryd i'w gilydd yn sgil newidiadau mewn marchnadoedd ariannol. Mae'r tabl hefyd yn dangos dosbarthiad yr asedau ar ddyddiad y prisiad.

	Strategaeth Fuddsoddi	Gwir werth yr asedau ar y farchnad ar 31 Mawrth 2022	
		Miloedd o bunnau	
Ecwiti Byd-eang	10.0%	266,515	10.7%
Ecwiti Marchnadoedd Newydd	10.0%	224,172	9.0%
Portffolio Syniadau Gorau	11.0%	276,478	11.1%
Cronfeydd mantoli	7.0%	159,411	6.4%
Credyd Aml-ased	12.0%	249,080	10.0%
Eiddo	4.0%	149,448	6.0%
Fframwaith Rheoli Risg ac Arian Parod	23.0%	635,153	25.5%
Ecwiti Preifat	8.0%	196,773	7.9%
Lleol / Effaith	4.0%	67,251	2.7%
Credyd Preifat	3.0%	52,307	2.1%
Seilwaith	8.0%	119,558	4.8%
Coed / Amaethyddiaeth	0.0%	12,454	0.5%
Arian Parod	0.0%	82,195	3.3%
Cyfanswm	100%	2,490,795	100%

Mae'r Awdurdod Gweinyddu hefyd yn dal cyfraniadau gwirfoddol ychwanegol a fuddsoddir ar wahân. Nid yw'r asedau hynny wedi'u cynnwys yn y gwerth sydd wedi'i bennu ar y farchnad gan eu bod yn cyfateb yn union i werth y buddion y'u telir ar eu cyfer.

Cafwyd manylion yr asedau ar ddyddiad y prisiad a'r trosglwyddiadau ariannol a wnaed yn y cyfnod ers y prisiad diwethaf o gyfrifon y Gronfa fel y'u harchwiliwyd.

Crynodeb o'r Buddion

Y buddion y pennir eu gwerth yn ein cyfrifiadau yw'r rhai hynny sy'n weithredol ar y dyddiad y daw'r prisiad yn weithredol. Ceir manylion llawn y rheiny yn Rheoliadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol 2013 (fel y'u diwygiwyd). Dyma'r manylion pennaf:

Rheoliadau'r Cynllun

Rheoliadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol 2013
(<http://www.legislation.gov.uk/ukxi/2013/2356/contents/made>)

Rheoliadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (Darpariaethau Trosiannol, Cynilion a Diwygio) 2014
(<http://www.legislation.gov.uk/ukxi/2014/525/contents/made>)

Cydraddoli/Mynegeo'r Isafswm Pensiwn Gwarantedig

O dan gyfraith y Deyrnas Gyfunol a'r Undeb Ewropeaidd mae'n ofynnol i gynlluniau pensiwn ddarparu buddion cyfartal i ddynion a menywod ar gyfer gwasanaeth wedi 17 Mai 1990 (dyddiad dyfarniad "Barber") ac mae hynny'n cynnwys darparu buddion cyfartal fel y'u cronwyd ers y dyddiad hwnnw, yn unol â'r gwahaniaethau mewn Isafsymiau Pensiwn Gwarantedig. Yn sgil achos Banc Lloyds yn 2018 cyhoeddodd y Trysorlys ymgynghoriad ynghylch cydraddoli a mynegeo Isafsymiau Pensiwn Gwarantedig ymhob un o'r cynlluniau pensiwn gwasanaethau cyhoeddus, gan gynnwys y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol, a daeth yr ymgynghoriad i ben ar 23 Mawrth 2021
([23.03.2021 Response to GMP consultation final 002 .pdf \(publishing.service.gov.uk\)](https://www.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/761639/Treasury_Direction_under_section_59A_Social_Security_Pensions_Act_1975.pdf)).

O ganlyniad i hynny bydd yr elfennau Isafswm Pensiwn Gwarantedig o fuddion yr holl aelodau sy'n dod i Oedran Pensiwn y Wladwriaeth ar ôl 5 Ebrill 2016 yn cael eu mynegeo'n llawn yn unol â chwyddiant y Mynegai Prisiau Defnyddwyr, gyda'r nod o fynd i'r afael â'r anghydraddoldeb y mae'r Llywodraeth wedi'i gydnabod.

Cyfarwyddyd y Trysorlys dan Adran 59A o Ddeddf Pensiynau Nawdd Cymdeithasol 1975
(https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/761639/Treasury_Direction_under_section_59A_Social_Security_Pensions_Act_1975.pdf).

Lwfiwyd yn llawn ar gyfer hyn wrth asesu'r rhwymedigaethau yn y prisiad hwn. O gymharu â chanlyniadau prisiad 2019, rydym wedi lwfio ar gyfer ymestyn y cyfarwyddyd a'i gwneud yn ofynnol i'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol fod yn gyfrifol am gynyddu Isafsymiau Pensiwn Gwarantedig yr aelodau hynny sy'n dod i Oedran Pensiwn y Wladwriaeth ar ôl 5 Ebrill 2021.

Mae'n destun trafodaeth ar hyn o bryd a ddylid gwneud addasiad ar gyfer nifer fechan o achosion eithriadol (fel y nodwyd yn yr ymateb i'r ymgynghoriad) a thaliadau trosglwyddo a wnaed yn y gorffennol i aelodau wrth iddynt ymadael â'r Gronfa, ac mae pawb yn aros am ragor o gyfarwyddyd gan y Llywodraeth. Ni lwfiwyd yn benodol ar gyfer y rhwymedigaethau posib hyn yn y prisiad hwn, ac ystyrir y mater unwaith y mae'r cyfarwyddyd wedi'i gyhoeddi a'r data ar gael. Ni fyddem yn disgwyl iddo fod yn arwyddocaol yng nghyd-destun holl rwymedigaethau'r Gronfa, ond ni ellir ystyried hyn hyd oni ddarperir yr holl fanylion.

Blynyddoedd Ychwanegol i Ddigolledu

Mae'r Gronfa hefyd yn gyfrifol am dalu, a chodi'r gost ar gyflogwyr lle bo hynny'n briodol, y buddion a gyfyd yn sgil dyfarnu blynyddoedd ychwanegol o wasanaeth i ddigolledu aelod sy'n ymddeol cyn pryd. Oni throsir y blynyddoedd ychwanegol hynny'n fuddion "wedi'u cyllido", codir y gost fel arfer ar y cyflogwr perthnasol (ynghyd â'r codiadau pensiwn cysylltiedig) ac felly nid ydynt wedi'u cynnwys yn y prisiad.

Cyfraniadau Gwirfoddol Ychwanegol

Nid yw'r buddion a gyfyd o gyfraniadau gwirfoddol ychwanegol y mae'r aelodau yn talu arian amdanynt, taliadau Rhannu Costau'r cyflogwyr ar gyfer y Cyfraniadau Gwirfoddol Ychwanegol a'r asedau a fuddsoddir yng nghyswllt y cyfraniadau hynny, wedi'u cynnwys yn y prisiad hwn.

Dyfarniad McCloud

Mae dyfarniad McCloud yng nghyswllt y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol yn golygu penderfyniadau cyfreithiol yn achosion Sargeant/McCloud ynghylch trefniadau pensiwn Gweithwyr Tân a Barnwyr (a wnaed yn wreiddiol yn y Tribiwnlys Apeliadau Cyflogaeth a'u cadarnhau gan y Llys Apêl). Dyfarnodd y Llys bod y dulliau diogelu trosiannol a gynigiwyd i aelodau hŷn pan ddiwygiwyd y cynlluniau hyn yn gwahaniaethu'n anghyfreithlon ar sail oedran. Felly, mae'r Llywodraeth wedi cyhoeddi y bydd angen cymryd camau adferol i ddiwygio'r buddion yn y cynlluniau hynny.

Er nad oedd a wnelo'r achosion uchod â'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol yn uniongyrchol, mae'r Cynllun hefyd wedi rhoi trefniadau ar waith i ddiogelu aelodau hŷn fel rhan o'r diwygiadau a ddaeth i rym o 2014 ymlaen. Mae'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol wedi gweithredu trefniant sy'n golygu y bydd aelodau hŷn yn derbyn swm mwyaf y buddion sy'n daladwy dan yr hen gynllun a'r un newydd.

Cyhoeddodd y Llywodraeth ymgynghoriad fis Gorffennaf 2020 gan argymhell datrysiaid ar gyfer y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol. Mae hynny'n debygol o gynyddu'r costau i rai cyflogwyr. Disgwylwn y daw'r rheoliadau ar gyfer y datrysiaid i rym ym mis Hydref 2023 ac y byddant yn ôl-weithredol nes Ebrill 2014 yng Nghymru a Lloegr, a chyfnod y datrysiaid yn dod i ben ar 31 Mawrth 2022.

Wedi trafod â'r Awdurdod Gweinyddu ac er mwyn lwfio'n rhesymol ar gyfer y costau posib ar ffurf cyfraniadau cyflogwyr, rydym wedi tybio mai'r datrysiaid yn y pen draw fydd ymestyn y trefniant uchod ar gyfer aelodau hŷn i aelodau iau a ymunodd â'r Gronfa ar ôl 1 Ebrill 2012 (y dyddiad terfyn ar gyfer trefniadau diogelu). Yn fwy penodol, rydym wedi cytuno â'r Awdurdod Gweinyddu y byddwn:

- Yn amcangyfrif y buddion dan y trefniant uchod i aelodau gweithredol am wasanaeth wedi 31 Mawrth 2014 (pan ddaeth y cynllun newydd yn weithredol) hyd 31 Mawrth 2022.
- Yn cymharu hynny â gwir swm y buddion ar ôl 31 Mawrth 2014 a gronnwyd hyd 31 Mawrth 2022.
- Yn cyfrifo'r gost i bob aelod ar ffurf gwerth y buddion dan y trefniant uchod wedi tynnu gwir swm y buddion (gan anwybyddu aelodau y mae gwir werth eu buddion yn fwy).
- Adio'r costau hyn at ei gilydd ar gyfer yr holl aelodau gweithredol er mwyn dangos effaith y trefniant ar bob cyflogwr.

Rydym wedi cyfrifo'r gost ar gyfer yr holl fuddion (gan gynnwys buddion gohiriedig aelodau gweithredol y tybir a fydd yn ymadael â'r cynllun cyn iddynt ymddeol yn y dyfodol).

Nid oedd data ar gael wrth gynnal y prisiad ac felly nid ydym wedi cyfrifo unrhyw gostau ar gyfer aelodau a oedd eisoes wedi ymadael â gwasanaeth neu ymddeol fel yr oedd hi ar 31 Mawrth 2012. Oherwydd natur y trefniant uchod, disgwylwn y bydd unrhyw gostau ar gyfer y garfan hon o'r aelodau yn ansylweddol ar lefel y Gronfa gyfan. Credwn hefyd bod y dull o ymdrin ag aelodau gweithredol a'r tybiaethau sy'n sail ar gyfer y prisiad actiaraidd yn lwfio'n ddarbodus ar gyfer talu'r rhan helaeth o gostau felly ar gyfer y cyflogwyr yr effeithir arnynt.

Gan nad yw'r rheoliadau wedi'u pennu eto, ni allwn fod yn sicr bod y lwfans a wnaed yn gyson â'r trefniant terfynol a gytunir. Rydym yn fodlon, serch hynny, bod y dull a nodir uchod yn lwfio'n rhesymol ar gyfer y datrysiaid a ddisgwylir. Ailasesir y sefyllfa ym mhrisiad 2025 (neu'n gynt os bydd rhai cyflogwyr yn adolygu eu cyfraniadau) pan ddisgwylwn y bydd yr holl ddata perthnasol ar gael a'r datrysiaid terfynol yn hysbys.

Atodiad E

Dadansoddiad o brofiad yr aelodaeth

Mae'r dadansoddiad isod yn cymharu'r profiad gwirioneddol yn ystod y tair blynedd â'r tybiaethau a ddefnyddiwyd ar gyfer prisiad 2022.

	Gwirioneddol	Disgwyliedig	%
Ymddeoliadau oherwydd Afiechyd	83	114	73
Tynnu Pensiwn o'r Gronfa	4,208	3,476	121
Marwolaethau Pensiynwyr	1,163	1,164	100

Dylid nodi y gall tynnu pensiwn o'r gronfa gynnwys aelodau'n symud i Gronfa arall yn y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol, trosglwyddiadau mewn swmp a throsglwyddiadau dan delerau'r clwb trosglwyddiadau arbennig.

Atodiad F

Dangosfwrdd Prisio fel y cytunwyd â Bwrdd Ymgynghorol y Cynllun

Sefyllfa gyllido gwasanaeth yn y gorffennol yn 2022 - sail gyllido leol

Lefel cyllido (asedau/rhwymedigaethau)	105%
Lefel cyllido (newid ers y prisiad diwethaf)	+14%
Gwerth yr asedau a ddefnyddiwyd ar gyfer y prisiad (£miliynau)	2,491
Gwerth y rhwymedigaethau (£miliynau)	2,366
Gwarged / (diffyg) (£miliynau)	125
Cyfradd disgownt – gwasanaeth yn y gorffennol	4.60% y flwyddyn
Cyfradd disgownt – gwasanaeth yn y dyfodol	5.10% y flwyddyn
Codiadau pensiwn tybiedig (Mynegai Prisïau Defnyddwyr)	3.10% y flwyddyn
Dull o gyfrifo'r gyfradd disgownt, yn ogystal ag unrhyw newidiadau ers y prisiad diwethaf	Gweler Atodiad A

Disgwyliadau oes tybiedig yn 65 oed

Disgwyliad oes cyfartalog i bensiynwyr cyfredol - dynion sy'n 65 oed ar hyn o bryd	21.5
Disgwyliad oes cyfartalog i bensiynwyr cyfredol - menywod sy'n 65 oed ar hyn o bryd	23.9
Disgwyliad oes cyfartalog i bensiynwyr yn y dyfodol - dynion sy'n 45 oed ar hyn o bryd	23.3
Disgwyliad oes cyfartalog i bensiynwyr yn y dyfodol - menywod sy'n 45 oed ar hyn o bryd	26.0

Mae'r sylfaen at ddibenion sefyllfa gyllido Bwrdd Ymgynghorol y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol ("sylfaen y Bwrdd Ymgynghorol") yn gyfres o dybiaethau y mae'r Bwrdd Ymgynghorol yn eu pennu. Y diben yw pennu'r sefyllfa gyllido ar gyfer dull safonedig fel bod modd cymharu â Chronfeydd eraill y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol, ac i gynorthwyo â'r "adolygiad Adran 13" y mae Adran Actiwari'r Llywodraeth yn ei gynnal. Rydym yn fodlon darparu rhagor o fanylion ynglŷn â sylfaen y Bwrdd Ymgynghorol ar gais.

Sefyllfa gyllido gwasanaeth yn y gorffennol - sylfaen y Bwrdd Ymgynghorol (er cymhariaeth yn unig)		
Gwerth yr asedau ar y farchnad	2,491	
Gwerth y rhwymedigaethau	2,139	
Lefel cyllido yn ôl sylfaen y Bwrdd Ymgynghorol (asedau/rhwymedigaethau)	116%	
Lefel cyllido yn ôl sylfaen y Bwrdd Ymgynghorol (newid ers y prisiad diwethaf)	+13%	
<u>Cyfraddau cyfraniadau sy'n daladwy</u>	Prisiad 2022	Prisiad 2019
Cyfradd gyfraniadau sylfaenol	18.8%	17.3%
Cyfraniadau eilaidd:		
Cyfraniadau eilaidd blwyddyn 1af tystysgrif cyfraddau ac addasu (£m)	-4.5	15.9
Cyfraniadau eilaidd 2il flwyddyn tystysgrif cyfraddau ac addasu (£m)	-12.7	15.3
Cyfraniadau eilaidd 3ydd blwyddyn tystysgrif cyfraddau ac addasu (£m)	-12.9	15.7
<u>Sy'n rhoi cyfanswm y cyfraniadau a ddisgwyllir:</u>		
Cyfanswm cyfraniadau disgwyliedig – blwyddyn 1af tystysgrif cyfraddau ac addasu (£m ffigwr yn seiliedig ar gyflogres dybiedig)	55.7	61.7
Cyfanswm cyfraniadau disgwyliedig – 2il flwyddyn tystysgrif cyfraddau ac addasu (£m ffigwr yn seiliedig ar gyflogres dybiedig)	49.9	62.0
Cyfanswm cyfraniadau disgwyliedig – 3ydd blwyddyn tystysgrif cyfraddau ac addasu (£m ffigwr yn seiliedig ar gyflogres dybiedig)	52.2	63.3
<u>Y gyflogres dybiedig (symiau arian parod ymhob blwyddyn)</u>		
Cyfanswm cyflogres tybiedig – blwyddyn 1af tystysgrif cyfraddau ac addasu (£m)	320	264
Cyfanswm cyflogres tybiedig – 2il flwyddyn tystysgrif cyfraddau ac addasu (£m)	333	269
Cyfanswm cyflogres tybiedig – 3ydd blwyddyn tystysgrif cyfraddau ac addasu (£m)	346	274
Cyfanswm cyfradd cyfraniad cyflogwr ar gyfartaledd 3 blynedd	15.8%	23.2%
Cyfradd gyfraniadau gyfartalog y gweithiwr (% o'r cyflog)	6.3%	6.2%

Cyfraniadau gweithiwr (£m yn seiliedig ar gyflogres blwyddyn 1af tybiedig)	20.2	16.4
<u>Cynllun adennill diffyg a dyrannu gwarged:</u>	Prisiad 2022	Prisiad 2019
Dyddiad terfyn y cynllun adennill diffyg diweddaraf	2033	2034
Dyddiad terfyn cynharaf y cyfnod dyrannu gwarged	2026	2023
Dyddiad terfyn y gorwel a bennir (os yw ymgynghorydd actiwaraid y Gronfa'n defnyddio'r dull hwnnw)	Amherthnasol	Amherthnasol
Tebygolrwydd y bydd y cynllun cyllido'n llwyddo (os yw ymgynghorydd actiwaraid y Gronfa'n defnyddio'r dull hwnnw)	Amherthnasol	Amherthnasol
Canran y rhwymedigaethau sy'n perthyn i gyflogwyr â chyfnodau adennill diffyg hwy nag ugain mlynedd	0%	0%
<u>Gwybodaeth ychwanegol</u>		
Canran yr holl rwymedigaethau sy'n perthyn i gyflogwyr Haen 3	8%	
Dadansoddiad/sylwadau ynghylch newid hinsawdd wedi'i gynnwys yn adroddiad prisiad 2022	Do	
Gwerth rhwymedigaethau McCloud yn adroddiad prisiad 2022 (ar sail cyllido lleol)	£26.4 miliwn	

Atodiad G

Tystysgrif Cyfraddau ac Addasiadau a roddir yn unol â Rheoliad 62

Enw'r Gronfa

Cronfa Bensiynau Clwyd

Y Gyfradd Gyfraniadau Sylfaenol

Ardystiaf drwy hyn fy marn mai'r gyfradd sylfaenol ar gyfer cyfraniad y cyflogwyr i'r Gronfa gyfan ymhob un o'r tair o flynyddoedd sy'n dechrau ar 1 Ebrill 2023 yw 18.8% o'r cyflogau pensiynadwy. Pennir cyfradd gyfraniadau sylfaenol pob cyflogwr ar gyfer y tair blynedd sy'n dechrau ar 1 Ebrill 2023 yn yr atodlen sydd ynghlwm.

Y Gyfradd Gyfraniadau Eilaidd

Ardystiaf drwy hyn fy marn mai'r gyfradd eilaidd ar gyfer cyfraniad y cyflogwyr i'r Gronfa gyfan ymhob un o'r tair o flynyddoedd sy'n dechrau ar 1 Ebrill 2023 yw:

2023/24 Neilltuo gwarged o £6.4 miliwn a thynnu 0.6% o'r cyflogau pensiynadwy

2024/25 Neilltuo gwarged o £13.0 miliwn a thynnu 0.1% o'r cyflogau pensiynadwy

2025/26 Neilltuo gwarged o £13.2 miliwn a thynnu 0.1% o'r cyflogau pensiynadwy

Pennir cyfradd gyfraniadau eilaidd pob cyflogwr ar gyfer y tair blynedd sy'n dechrau ar 1 Ebrill 2023 yn yr atodlen sydd ynghlwm. Mae'r cyfraddau eilaidd uchod, a'r cyfraddau eilaidd ar gyfer pob cyflogwr unigol, yn cynnwys darpariaeth ar gyfer costau dyfarniad McCloud lle bo hynny'n briodol, fel y pennir yn nodiadau Atodiad H.

Symiau'r cyfraniadau sy'n daladwy

Mae'r cyfraniad y mae'n ofynnol i bob cyflogwr ei dalu yn gyfanswm o'r cyfraddau sylfaenol ac eilaidd y manylir yn eu cylch yn yr atodlen sydd ynghlwm. Telir cyfraniadau'n fisol ar ffurf ôl-daliad a bydd pob taliad yn ddyledus fel arfer ar y 19eg o'r mis sy'n dilyn (neu'r 22ain os telir yn electronig neu 'n unol ag amserlen y cytunwyd arni gyda'r Awdurdod Gweinyddu) oni nodir fel arall yn yr atodlen.

Addasiadau eraill

Gwneir addasiad unigol ychwanegol ar gyfer pob ymddeoliad cynnar am resymau heblaw am afiechyd sy'n digwydd yn ystod y cyfnod o dair blynedd y rhoddwyd y dystysgrif hon ar ei gyfer. Cyfrifir yr addasiad unigol ychwanegol hwn yn unol â'r dulliau y mae Actiwari'r Gronfa a'r Awdurdod Gweinyddu'n cytuno arnynt o bryd i'w gilydd.

Y cyfraniadau a bennir yn yr atodlen sydd ynghlwm yw'r lleiafswm y gall pob cyflogwr ei dalu yn y cyfnod o dair blynedd y rhoddwyd y dystysgrif hon ar ei gyfer. Mae modd i gyflogwr wneud cais i dalu cyfraniadau ychwanegol neu dalu ar sail patrwm gwahanol ond yr Awdurdod Gweinyddu yn unig sydd i benderfynu hynny, gyda chytundeb yr Actiwari. Cyfanswm lleiaf y cyfraniadau sy'n daladwy gan bob cyflogwr fydd £0.

Gellir amrywio cyfraniadau unrhyw gyflogwr drwy gytundeb â'r Actiwari a'r Awdurdod Gweinyddu er mwyn adlewyrchu unrhyw newidiadau yn y gofynion cyfrannu o ganlyniad i'r datrasiad yn sgil Dyfarniad McCloud fel y'u nodir yn yr adroddiad hwn ac/neu unrhyw gostau buddion a gaiff eu hyswrio gan yswiriwr neu yswirwyr allanol, a'r un yw'r drefn os yw'r yswiriwr yn un o gyfranogwyr y Gronfa.

Os trosglwyddir elfen o warged neu ddiffyg un o'r cyflogwyr sydd eisoes yn cyfranogi o'r Cynllun i gyflogwr newydd pan mae'n cychwyn, bydd modd ailddyrannu cyfraniadau eilaidd y cyflogwr yn y Cynllun i'r cyflogwr newydd, fel y gwelir yn yr atodlen i'r Dystysgrif hon yn Atodiad H, yn unol â chynghor yr Actiwari ac os yw'r Awdurdod Gweinyddu'n cytuno, fel bod cyfanswm y taliadau'n aros yr un fath yn gyffredinol.

Gall yr Awdurdod Gweinyddu a'r cyflogwr, ar sail cynghor yr Actiwari, ddod i gytundeb y gellir codi'r cyfraniadau sy'n daladwy dan y dystysgrif hon drwy ryw drefniant cyllido gwahanol a fyddai'n darparu'r un swm o arian i'r Gronfa.

Rheoliad 62(8)

Yn unol â Rheoliad 62(8) o'r rheoliadau, rydym wedi cyfrifo'r cyfraniadau y dylid eu talu i'r Gronfa rhwng 1 Ebrill 2023 a 31 Mawrth 2026 gyda'r nod o gynnal y Gronfa heb ddyledion.

Mae Datganiad y Strategaeth Gyllido'n disgrifio'r tybiaethau sy'n sail ar gyfer y cyfraddau cyfrannu a bennir yn y dystysgrif hon a cheir crynodeb ohonynt yn Atodiad A i adroddiad Actiwari'r Gronfa ar gyfer Prisiad Actiwaraidd 31 Mawrth 2022. Y tybiaethau hynny sy'n llywio ein hamcangyfrif o nifer yr aelodau (a'r pensiynau a rhwymedigaethau sy'n gysylltiedig â hwy) a ddaw'n gymwys am bensiwn o dan ddarpariaethau'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol.

Ni lwfiwyd ar gyfer ymddeoliadau cynnar am resymau heblaw am afiechyd wrth bennu canlyniadau'r prisiad, gan y bydd cyfraniadau ychwanegol yn talu am y costau a gyfyd o hynny. Lwfiwyd ar gyfer ymddeoliadau ar sail afiechyd yng nghyfraniad pob cyflogwr, ar sail y dull a'r tybiaethau sydd wedi'u nodi yn yr adroddiad.

Llofnod:



Enw:	Paul Middleman	Michelle Doman
Cymhwyster:	Cymrawd Sefydliad a Chyfadrann yr Actiwariaid	Cymrawd Sefydliad a Chyfadrann yr Actiwariaid
Dyddiad llofnodi:	30 awrth 2023	

Atodiad H

Atodlen i'r Dystysgrif Cyfraddau ac Addasiadau yn ddyddiedig 30 Mawrth 2023

Rhif y Cyflogwr	Cyflogwr	Nodiadau	Cyfradd sylfaenol 2023/24 hyd 2025/26	Cyfraddau eilaidd			Cyfanswm y Cyfraniadau		
				2023/24	2024/25	2025/26	2023/24	2024/25	2025/26
Cynghorau									
100	Cyngor Sir y Fflint		19.0%	1.7%	0.1% a thynnu £4,500,000	0.1% a thynnu £4,529,100	20.7%	19.1% a thynnu £4,500,000	19.1% a thynnu £4,529,100
101	Cyngor Sir Ddinbych		18.8%	(£1,723,300)	(£1,798,300)	(£1,876,500)	18.8% a thynnu £1,723,300	18.8% a thynnu £1,798,300	18.8% a thynnu £1,876,500
102	Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam		19.0%	(£2,100,000)	(£4,000,000)	(£4,000,000)	19.0% a thynnu £2,100,000	19.0% a thynnu £4,000,000	19.0% a thynnu £4,000,000

Rhif y Cyflogwr	Cyflogwr	Nodiadau	Cyfradd sylfaenol 2023/24 hyd 2025/26	Cyfraddau eilaidd			Cyfanswm y Cyfraniadau		
				2023/24	2024/25	2025/26	2023/24	2024/25	2025/26
Cyflogwyr Eraill yn y Cynllun									
61	Coleg Cambria	9	18.1%	-1.6% ac ychwanegu £244,040 tan 31 Gorffennaf, yna 0% a thynnu £94,670 o 1 Awst ymlaen	(£148,200)	(£154,600)	16.5% ac ychwanegu £244,040 tan 31 Gorffennaf, yna 18.1% a thynnu £94,670 o 1 Awst ymlaen	18.1% a thynnu £148,200	18.1% a thynnu £154,600
49	Prifysgol Glyndŵr	9	17.2%	-0.1% ac ychwanegu £118,200 tan 31 Gorffennaf, yna 0% a thynnu £405,330 o 1 Awst ymlaen	(£634,400)	(£662,000)	17.1% ac ychwanegu £118,200 tan 31 Gorffennaf, yna 17.2% a thynnu £405,330 o 1 Awst ymlaen	17.2% a thynnu £634,400	17.2% a thynnu £662,000
103	Awdurdod Tân Gogledd Cymru		18.3%	(£503,000)	(£524,900)	(£547,700)	18.3% a thynnu £503,000	18.3% a thynnu £524,900	18.3% a thynnu £547,700
19	Tribiwnlys Gogledd Cymru		22.2%	(£10,900)	(£11,400)	(£11,900)	22.2% a thynnu £10,900	22.2% a thynnu £11,400	22.2% a thynnu £11,900

Rhif y Cyflogwr	Cyflogwr	Nodiadau	Cyfradd sylfaenol 2023/24 hyd 2025/26	Cyfraddau eilaidd			Cyfanswm y Cyfraniadau		
				2023/24	2024/25	2025/26	2023/24	2024/25	2025/26
Cynghorau Tref a Chymuned									
72	Cyngor Cymuned Acton	2	25.8%	£560	£0	£0	25.8% ac ychwanegu £560	25.8%	25.8%
29	Cyngor Cymuned Argoed		22.7%	(£1,900)	(£2,000)	(£2,100)	22.7% a thynnu £1,900	22.7% a thynnu £2,000	22.7% a thynnu £2,100
68	Cyngor Cymuned Bagillt		20.2%	£300	£300	£300	20.2% ac ychwanegu £300	20.2% ac ychwanegu £300	20.2% ac ychwanegu £300
89	Cyngor Cymuned Brychdyn a Bretton		23.8%	£100	£100	£100	23.8% ac ychwanegu £100	23.8% ac ychwanegu £100	23.8% ac ychwanegu £100
27	Cyngor Tref Bwcle		28.0%	(£15,300)	(£16,000)	(£16,700)	28.0% a thynnu £15,300	28.0% a thynnu £16,000	28.0% a thynnu £16,700
38	Cyngor Cymuned Parc Caia		24.8%	(£41,500)	(£43,300)	(£45,200)	24.8% a thynnu £41,500	24.8% a thynnu £43,300	24.8% a thynnu £45,200
66	Cyngor Cymuned Cefn Mawr		14.8%	£200	£200	£200	14.8% ac ychwanegu £200	14.8% ac ychwanegu £200	14.8% ac ychwanegu £200
11	Cyngor Cymuned Coedpoeth		20.3%	(£11,900)	(£12,400)	(£13,000)	20.3% a thynnu £11,900	20.3% a thynnu £12,400	20.3% a thynnu £13,000

Rhif y Cyflogwr	Cyflogwr	Nodiadau	Cyfradd sylfaenol 2023/24 hyd 2025/26	Cyfraddau eilaidd			Cyfanswm y Cyfraniadau		
				2023/24	2024/25	2025/26	2023/24	2024/25	2025/26
17	Cyngor Tref Cei Connah		17.3%	(£30,300)	(£31,600)	(£33,000)	17.3% a thynnu £30,300	17.3% a thynnu £31,600	17.3% a thynnu £33,000
73	Cyngor Tref Dinbych		22.9%	£0	£0	£0	22.9%	22.9%	22.9%
87	Cyngor Tref y Flint		18.9%	£100	£100	£100	18.9% ac ychwanegu £100	18.9% ac ychwanegu £100	18.9% ac ychwanegu £100
86	Cyngor Cymuned Gresffordd		24.2%	(£100)	(£100)	(£100)	24.2% a thynnu £100	24.2% a thynnu £100	24.2% a thynnu £100
69	Cyngor Cymuned Gwernymynydd		33.1%	£0	£0	£0	33.1%	33.1%	33.1%
18	Cyngor Cymuned Penarlâg		23.1%	(£26,200)	(£27,300)	(£28,500)	23.1% a thynnu £26,200	23.1% a thynnu £27,300	23.1% a thynnu £28,500
84	Cyngor Tref Treffynnon		22.2%	(£6,600)	(£6,900)	(£7,200)	22.2% a thynnu £6,600	22.2% a thynnu £6,900	22.2% a thynnu £7,200
71	Cyngor Cymuned yr Hôb		19.4%	£400	£400	£400	19.4% ac ychwanegu £400	19.4% ac ychwanegu £400	19.4% ac ychwanegu £400
70	Cyngor Cymuned Marchwiall		26.1%	(£100)	(£100)	(£100)	26.1% a thynnu £100	26.1% a thynnu £100	26.1% a thynnu £100

Rhif y Cyflogwr	Cyflogwr	Nodiadau	Cyfradd sylfaenol 2023/24 hyd 2025/26	Cyfraddau eilaidd			Cyfanswm y Cyfraniadau		
				2023/24	2024/25	2025/26	2023/24	2024/25	2025/26
36	Cyngor Tref yr Wyddgrug		19.6%	(£13,700)	(£14,300)	(£14,900)	19.6% a thynnu £13,700	19.6% a thynnu £14,300	19.6% a thynnu £14,900
83	Cyngor Tref Llaneurgain		23.2%	(£200)	(£200)	(£200)	23.2% a thynnu £200	23.2% a thynnu £200	23.2% a thynnu £200
35	Cyngor Cymuned Offa		24.4%	(£7,600)	(£7,900)	(£8,300)	24.4% a thynnu £7,600	24.4% a thynnu £7,900	24.4% a thynnu £8,300
67	Cyngor Cymuned Penyffordd		19.1%	(£100)	(£100)	(£100)	19.1% a thynnu £100	19.1% a thynnu £100	19.1% a thynnu £100
33	Cyngor Tref Prestatyn		23.8%	(£15,900)	(£16,600)	(£17,300)	23.8% a thynnu £15,900	23.8% a thynnu £16,600	23.8% a thynnu £17,300
22	Cyngor Cymuned Rhosllanerchrugog		15.8%	(£8,800)	(£9,200)	(£9,600)	15.8% a thynnu £8,800	15.8% a thynnu £9,200	15.8% a thynnu £9,600
58	Cyngor Tref y Rhyl		21.2%	£20,500	£0	£0	21.2% ac ychwanegu £20,500	21.2%	21.2%
74	Cyngor Tref Rhuthun		18.7%	£300	£300	£300	18.7% ac ychwanegu £300	18.7% ac ychwanegu £300	18.7% ac ychwanegu £300
26	Cyngor Tref Shotton		10.5%	(£4,900)	(£5,100)	(£5,300)	10.5% a thynnu £4,900	10.5% a thynnu £5,100	10.5% a thynnu £5,300

Rhif y Cyflogwr	Cyflogwr	Nodiadau	Cyfradd sylfaenol 2023/24 hyd 2025/26	Cyfraddau eilaidd			Cyfanswm y Cyfraniadau		
				2023/24	2024/25	2025/26	2023/24	2024/25	2025/26
Cyflogwyr Eraill									
94	Aramark B		25.9%	(£5,500)	(£5,700)	(£6,000)	25.9% a thynnu £5,500	25.9% a thynnu £5,700	25.9% a thynnu £6,000
80	Aramark Cyf		21.0%	(£10,500)	(£11,000)	(£11,400)	21.0% a thynnu £10,500	21.0% a thynnu £11,000	21.0% a thynnu £11,400
79	Hamdden a Llyfrgelloedd Aura		20.3%	(£166,600)	(£173,800)	(£181,400)	20.3% a thynnu £166,600	20.3% a thynnu £173,800	20.3% a thynnu £181,400
8	Gyrfa Cymru		19.2%	(£315,200)	(£328,900)	(£343,200)	19.2% a thynnu £315,200	19.2% a thynnu £328,900	19.2% a thynnu £343,200
77	Cartref Ni Cyf		18.3%	(£1,600)	(£1,700)	(£1,700)	18.3% a thynnu £1,600	18.3% a thynnu £1,700	18.3% a thynnu £1,700
13	Cartref Dyffryn Ceiriog		26.4%	(£156,200)	(£163,000)	(£170,100)	26.4% a thynnu £156,200	26.4% a thynnu £163,000	26.4% a thynnu £170,100
82	Churchills Cyf		22.6%	(£1,500)	(£1,600)	(£1,600)	22.6% a thynnu £1,500	22.6% a thynnu £1,600	22.6% a thynnu £1,600
62	Grŵp Ieuenctid Dinbych		26.9%	(£2,600)	(£2,700)	(£2,800)	26.9% a thynnu £2,600	26.9% a thynnu £2,700	26.9% a thynnu £2,800

Rhif y Cyflogwr	Cyflogwr	Nodiadau	Cyfradd sylfaenol 2023/24 hyd 2025/26	Cyfraddau eilaidd			Cyfanswm y Cyfraniadau		
				2023/24	2024/25	2025/26	2023/24	2024/25	2025/26
85	Hamdden Sir Ddinbych		14.3%	(£121,500)	(£126,800)	(£132,300)	14.3% a thynnu £121,500	14.3% a thynnu £126,800	14.3% a thynnu £132,300
93	Dolce		22.5%	(£200)	(£200)	(£200)	22.5% a thynnu £200	22.5% a thynnu £200	22.5% a thynnu £200
65	Freedom Leisure		20.3%	(£103,600)	(£108,100)	(£112,800)	20.3% a thynnu £103,600	20.3% a thynnu £108,100	20.3% a thynnu £112,800
76	Holywell Leisure		18.3%	(£7,600)	(£7,900)	(£8,300)	18.3% a thynnu £7,600	18.3% a thynnu £7,900	18.3% a thynnu £8,300
81	Home Farm Trust Cyf		22.4%	(£49,700)	(£51,900)	(£54,100)	22.4% a thynnu £49,700	22.4% a thynnu £51,900	22.4% a thynnu £54,100
78	Arlwyo a Glanhau NEWydd		23.1%	(£186,400)	(£194,500)	(£203,000)	23.1% a thynnu £186,400	23.1% a thynnu £194,500	23.1% a thynnu £203,000
91	Ymddiriedolaeth Cerdd Theatr Clwyd		21.2%	(£1,400)	(£1,500)	(£1,500)	21.2% a thynnu £1,400	21.2% a thynnu £1,500	21.2% a thynnu £1,500
90	Ymddiriedolaeth Theatr Clwyd		19.1%	(£18,400)	(£19,200)	(£20,000)	19.1% a thynnu £18,400	19.1% a thynnu £19,200	19.1% a thynnu £20,000

Rhif y Cyflogwr	Cyflogwr	Nodiadau	Cyfradd sylfaenol 2023/24 hyd 2025/26	Cyfraddau eilaidd			Cyfanswm y Cyfraniadau		
				2023/24	2024/25	2025/26	2023/24	2024/25	2025/26
75	Undeb Myfyrwyr Prifysgol Glyndŵr Wrecsam	9	14.7%	-3.2% ac ychwanegu £330 tan 31 Gorffennaf, yna 0% ac ychwanegu £330 o 1 Awst ymlaen	£500	£500	11.5% ac ychwanegu £330 tan 31 Gorffennaf, yna 14.7% ac ychwanegu £330 o 1 Awst ymlaen	14.7% ac ychwanegu £500	14.7% ac ychwanegu £500

Nodiadau pwysig ar y Dystysgrif:

1. Mae'r canrannau a gyflwynir yn ganrannau o gyflogau pensiynadwy ac yn berthnasol i'r holl aelodau, gan gynnwys y rhai hynny sy'n aelodau 50:50 o'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol.
2. Mae'r cyflogwr wedi dewis talu'r gyfradd eilaidd ar gyfer yr aelodau hynny am dair blynedd fel un cyfandaliad. Mae'n rhaid talu'r holl arian ar gyfer y cyfandaliadau erbyn 30 Ebrill 2023. Mae'r symiau ar gyfer pob blwyddyn wedi'u gostwng ar sail y taliad cynnar.
3. Mae'r cyflogwr wedi dewis talu'r gyfradd eilaidd sy'n ofynnol ymhob blwyddyn fel un taliad blyneddol. Mae'n rhaid cyflwyno'r taliadau blyneddol hyn yn llawn erbyn 30 Ebrill yn y flwyddyn y maent yn ddyledus. Mae'r symiau ar gyfer pob blwyddyn wedi'u gostwng ar sail y taliad cynnar.
4. Gyda chytundeb yr Awdurdod Gweinyddu gall gyflogwyr hefyd ddewis talu unrhyw elfen o'u cyfraniadau cyflogwr yn llwyr o flaen llaw yn hytrach na'u talu bob mis, naill ai drwy dalu am y tair blynedd i gyd ym mis Ebrill 2023 neu dalu'n gynharach na'r dyddiad y daw'n ddyledus yn y flwyddyn dan sylw. Gostyngir y symiau sy'n daladwy yn gyfnewid am dalu'r arian yn gynnar, fel a ganlyn:
 - Bydd taliadau blyneddol a wneir o flaen llaw yn destun gostyngiad o 2.22% (hynny yw, lluosir y symiau uchod â 0.9778)
 - Bydd taliadau ar gyfer 2024/25 a wneir ym mis Ebrill 2023 yn destun gostyngiad o 6.52% (hynny yw, lluosir y symiau uchod â 0.9348)
 - Bydd taliadau ar gyfer 2025/26 a wneir ym mis Ebrill 2023 yn destun gostyngiad o 10.63% (hynny yw, lluosir y symiau uchod â 0.8937).

Gallai fod modd i gyflogwyr dalu o flaen llaw ar ddyddiadau gwahanol a bod y ffactorau disgownt yn cael eu haddasu'n unol â'r dull a bennir uchod, ond yr Awdurdod Gweinyddu'n unig sydd i benderfynu hynny.

5. Os bydd cyflogwr yn dewis talu cyfraniadau o flaen llaw i ddechrau a'i fod wedyn ddim yn gwneud hynny, bydd yn ofynnol i'r cyflogwr dalu'r cyfraniadau heb eu disgowntio (yn hytrach na'r rhai a ardystiwyd) a byddant yn ddyledus unwaith y mis neu'n unol ag amserlen arall a gytunir â'r Awdurdod Gweinyddu.
6. Os yw'r gyfradd eilaidd yn ddiidyniad arian o'r gyfradd sylfaenol gan fod gwarged gan y cyflogwr, bydd cyfanswm y cyfraniadau y mae'n ofynnol i bob cyflogwr eu talu'n flynyddol yn destun isafswm o £0; hynny yw, ni fydd modd ad-dalu unrhyw arian i gyflogwr tra bydd yn cyfranogi o'r Gronfa.
7. Mae'r cyfraniadau eilaidd uchod yn cynnwys darpariaeth ar gyfer effaith debygol dyfarniad McCloud, ar sail y datrysiad argymelledig. Er ei bod yn bosib y gallai'r Gronfa fynnu cyfraniadau ychwanegol gan gyflogwyr ar yr adeg honno, os yw datrysiad McCloud yn sylweddol wahanol i'r hyn a ddisgwylir ar hyn o bryd, mae'r Awdurdod Gweinyddu o'r farn bod hynny'n annhebygol ar sail ei wybodaeth a dealltwriaeth bresennol o'r canlyniad a ddisgwylir. Os bydd gofyn am gyfraniadau ychwanegol, diwygir y dystysgrif hon yn unol â hynny. Daw unrhyw newid mewn cyfraniadau'n weithredol ar ddyddiad y mae'r Awdurdod Gweinyddu'n ei bennu.
8. Mae gan y Gronfa drefniant yswiriant daliedig er mwyn rhannu'r risgiau sy'n gysylltiedig â chostau ymddeoliad oherwydd afiechyd. Lluniwyd y trefniant daliedig ar gyfer y cyflogwyr hynny y gallai ymddeoliad un neu fwy o'u haelodau oherwydd afiechyd effeithio'n sylweddol arnynt. Mae Datganiad y Strategaeth Gyllido'n nodi'r cyflogwyr (yn rhai presennol a rhai newydd) a gaiff eu cynnwys yn y trefniant daliedig. Fel arfer fe gaiff cyflogwyr sy'n ymuno â'r Gronfa o'r newydd eu cynnwys hefyd. Lwfiwyd ar gyfer ymddeoliadau ar sail afiechyd yng nghyfradd gyfraniadau pob cyflogwr sy'n cyfranogi o'r trefniant daliedig ar gyfer afiechyd, ar sail y dull a'r tybiaethau sydd wedi'u nodi yn yr adroddiad. Mae Datganiad y Strategaeth Gyllido'n manylu ynghylch y trefniant.
9. Mae'n rhaid i'r Gronfa a'r cyflogwr atal gweithrediad y gyfradd sylfaenol a aseswyd fel rhan o brisiad 2022 nes 1 Awst 2023, gan y bydd y cyfraddau gofynnol yn parhau nes 31 Gorffennaf 2026. Felly, bydd y gyfradd sylfaenol a ardystiwyd ar gyfer 2022/23 yn parhau nes 31 Awst 2023 (fel y gwelir uchod).
10. Mae modd i gyflogwr ordalu/talu rhy ychydig o'r cyfraniadau gofynnol yn yr atodlen hon mewn blwyddyn, a gordalu/talu rhy ychydig yn y blynyddoedd sy'n dilyn ar y sail bod cyfanswm y cyfraniadau cronus o leiaf yn gyfwerth â chyfanswm y cyfraniadau gofynnol yn yr atodlen hon, ond yr Awdurdod Gweinyddu'n unig sydd i benderfynu hynny. Gellir addasu'r cyfraniadau hyn yn ôl llog, yn unol â'r dulliau a bennir yn yr adroddiad hwn a/neu'r Rheoliadau. Bydd yn ofynnol i gyflogwyr ddod i gytundeb â'u harchwilwyr ynglŷn â'r dull gweithredu hwn, fel y bo'n briodol.

Atodiad I

Geirfa

Prisiad Actiwaraid: ymchwiliad gan actiwari i allu'r Gronfa i gyflawni ei rwymedigaethau. Ar gyfer y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol, bydd Actiwari'r Gronfa'n asesu lefel cyllido pob cyflogwr sy'n cyfranogi ac yn cytuno ar y cyfraddau cyfraniadau ar y cyd â'r Awdurdod Gweinyddu er mwyn ariannu costau buddion newydd a gwneud iawn am unrhyw ddiffygion fel y nodir yn Natganiad y Strategaeth Gyllido ar wahân.

Dyfarniad Barber: Dyfarniad Llys Cyfiawnder Ewrop yn achos Barber ym 1990, a oedd a wnelo ag anghydraddoldeb rhwng buddion pensiynau dynion a menywod a'r oedran y dechreuidd eu talu (gan fod menywod fel arfer yn medru derbyn eu pensiwn wrth droi'n 60 oed, o gymharu â 65 oed ar gyfer dynion). O ganlyniad i'r dyfarniad hwn mae'n rhaid i ymddiriedolwyr cynlluniau pensiwn dalu buddion cyfartal i ddynion a menywod cyffelyb ar gyfer eu gwasanaeth ers 17 Mai 1990.

Tybiaeth Amcangyfrif Gorau: tybiaeth lle mae tebygolrwydd 50/50 y cyflawnir y canlyniad.

Bondiau: benthyciadau a roddir i ddyroddwr (llywodraeth neu gwmni yn aml) sy'n ymrwymo i ad-dalu'r benthyciad ar ddyddiad diweddarach y cytunir arno. Mae'r term yn cyfeirio'n gyffredinol at fondiau corfforaethol neu fondiau'r llywodraeth (giltiau). Gweler hefyd 'giltiau mynegai-gysylltiol' a 'giltiau' isod.

Cynllun Enillion Cyfartalog Gyrfa wedi'u Hailbrisio: ers 1 Ebrill 2014 mae'r buddion y mae aelodau'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol yn eu cronni yn fuddion ar ffurf Enillion Cyfartalog Gyrfa wedi'u Hailbrisio. Bob blwyddyn bydd aelodau'n cronni buddion pensiwn sy'n gyfwerth â 1 rhan o 49 o'u cyflog pensiynadwy yn y flwyddyn honno. Mae pob pensiwn blynyddol a gronnir yn cynyddu ar sail chwyddiant (yn unol â'r newid blynyddol yn y Mynegai Prisiau Defnyddwyr) ar hyd y cyfnod nes ymddeol.

CMI: Mae'r cwmni cyfyngedig '*Continuous Mortality Investigation*' (CMI) yn ymchwilio i brofiadau o farwoldeb a chlefydded y gall actiwariaid ei ddefnyddio wrth asesu gofynion cyllido cronfeydd pensiynau a chyrff eraill.

Y Mynegai Prisiau Defnyddwyr: Mae'r Mynegai Prisiau Defnyddwyr yn fodd o fesur chwyddiant drwy gyfrifo prisiau basged o nwyddau a asesir yn flynyddol. Defnyddir gwahanol nwyddau a gwasanaethau o gymharu â'r Mynegai Prisiau Manwerthu. Mae disgwyl i brisiau'r nwyddau hyn gynyddu llai gyda chwyddiant, heb fod mor ansefydlog. Mae codiadau pensiwn yn y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol yn gysylltiedig â'r newid blynyddol yn y Mynegai Prisiau Defnyddwyr.

Diffyg: y swm y mae gwerth rhwymedigaethau'r Gronfa am wasanaeth a roddwyd yn fwy na gwerth asedau'r Gronfa.

Cyfradd Disgownt: y gyfradd llog a ddefnyddir i drosi swm o arian parod, fel taliadau buddion a fydd yn digwydd yn y dyfodol, er enghraifft, i'r gwerth presennol.

Cyfamod y Cyflogwr: yr hyn y mae cyflogwr sy'n cyfranogi o gynllun pensiwn galwedigaethol yn fodlon ac yn gallu ei wneud i gyflawni gofynion cyllido'r cynllun.

Cyfradd Gyfraniadau Cyflogwr yn y Dyfodol: cyfradd y cyfraniadau y mae'n ofynnol i gyflogwr eu talu, wedi'i mynegi fel canran o'r tâl pensiynadwy, sy'n ddigonol i dalu costau buddion newydd a gronnir gan aelodau gweithredol yn y dyfodol. Ni fydd y gost yn cynnwys cyfraniadau gweithwyr, a bydd yn cynnwys lwfans ar gyfer swm disgwylledig y costau gweinyddol. Mae hyn fel arfer yr un fath â Chyfradd Gyfraniadau Sylfaenol y cyflogwr o dan y Rheoliadau.

Cyfradd Gyfraniadau Sylfaenol y Cyflogwr: cyfradd y cyfraniadau sy'n ofynnol i dalu costau'r buddion sy'n cronni yn y dyfodol, gan gynnwys buddion ategol, marw yn y swydd ac afiechyd yn ogystal â chostau gweinyddu. Mynegir hyn ar ffurf canran o'r cyflog pensiynadwy, gan ddiystyru unrhyw waged neu ddiffyg yng nghyswllt gwasanaeth yn y gorffennol, ond gan ystyried unrhyw amgylchiadau sy'n benodol i'r cyflogwr, fel ei broffil aelodaeth, y strategaeth gyllido a fabwysiadwyd ar gyfer y cyflogwr dan sylw, y dull actiwaraid a ddefnyddiwyd a/neu gyfamod y cyflogwr. Y Gyfradd Gyfraniadau Sylfaenol i'r Gronfa gyfan yw'r cyfartaledd pwysedig (yn ôl cyflogresi) Cyfraddau Cyfraniadau Sylfaenol yr holl gyflogwyr unigol.

Cyfradd Gyfraniadau Eilaidd y Cyflogwr: addasiad yn y Gyfradd Sylfaenol ar sail unrhyw ddiffyg neu waged yn y gorffennol, er mwyn cyfrifo'r gyfradd y mae'n ofynnol i bob cyflogwr ei thalu. Gellid mynegi'r gyfradd Eilaidd fel addasiad canrannol yn y Gyfradd Sylfaenol, a/neu addasiad arian parod ym mhob un o'r tair blynedd sy'n dechrau ar 1 Ebrill yn y flwyddyn ar ôl yr un y mae'r dyddiad prisio ynddi. Manylir ynghylch y Gyfradd Eilaidd ar y Dystysgrif Cyfraddau ac Addasiadau. Y gyfradd y mae'n ofynnol i'r cyflogwr ei thalu mewn gwirionedd yw cyfanswm y cyfraddau Sylfaenol ac Eilaidd. Datgelir y Cyfraddau Eilaidd ar gyfer y gronfa gyfan ym mhob un o'r tair blynedd hefyd. Cyfrifir y rhain ar ffurf cyfartaledd pwysedig yn seiliedig ar y gronfa gyflogau lawn ar gyfer cyfraddau canrannol ac fel cyfanswm ar gyfer addasiadau arian parod.

Soddygyfrannau: cyfranddaliadau mewn cwmni sy'n cael eu prynu a'u gwerthu ar gyfnewidfa stoc.

Datganiad y Strategaeth Gyllido: dogfen lywodraethu allweddol sy'n egluro sut y bydd yr Awdurdod Gweinyddu'n rheoli cyfraniadau'r cyflogwyr i'r Gronfa.

Giltiau: benthyciadau a wneir i Lywodraeth y Deyrnas Gyfunol y mae'r Llywodraeth yn ymrwymo i'w had-dalu ar ddyddiad diweddarach y cytunir arno. Pennir y "cwpon" (hynny yw, swm y llog a delir fel rhan o gytundeb y benthyciad) a swm y setliad terfynol drwy gytundeb ar ddechrau cyfnod y benthyciad.

Adran Actiwari'r Llywodraeth: yr adran sy'n gyfrifol am roi cyngor actiwaraid i gleientiaid yn y sector cyhoeddus. Mae'n adran anweinidogol o'r Trysorlys.

Isafswm Pensiwn Gwarantedig: rhan o bensiwn aelod a enillwyd rhwng 6 Ebrill 1978 a 5 Ebrill 1997 ac sy'n disodli rhan o fuddion yr aelod hwnnw yng Nghynllun y Wladwriaeth a enillwyd yn y cyfnod dan sylw.

Rhagfantoli: strategaeth sydd â'r nod o osgoi cyllido ansefydlog a rhoi gwell sicrwydd ynghylch yr elw. Gwneir hyn drwy fuddsoddi mewn asedau (bondiau neu giltiau, fel arfer) sy'n cyflawni gwir arenillion sy'n cyfateb i'r lefelau a gytunwyd, fel bod yr asedau'n efelychu'r newid mewn rhwymedigaethau.

Cronfa Afiechyd Ddaliedig: cronfa dybiannol sydd â'r nod o ddiogelu cyflogwyr penodol rhag costau afiechyd gormodol yn gyfnewid am bremiwm yswiriant cytunedig. Mae'n gweithio fel polisi yswiriant; mae cyflogwyr sy'n rhan o'r trefniant daliedig yn talu premiwm ac yn gyfnewid mae'r cynllun yn talu unrhyw gostau afiechyd a gyfyd yn y dyfodol ymysg aelodau'r cyflogwr, ar yr amod y bodlonir meini prawf y polisi.

Giltiau Mynegai-gysylltiol: benthyciadau a wneir i Lywodraeth y Deyrnas Gyfunol y mae'r Llywodraeth yn ymrwmo i'w had-dalu ar ddyddiad diweddarach y cytunir arno. Addasir y cwpon (hynny yw, y llog a delir fel rhan o gytundeb y benthyciad) a swm y setliad terfynol yn unol â newidiadau yn chwyddiant y Mynegai Prisiau Manwerthu fel eu bod yn cadw eu 'gwir' werth dros amser ac er mwyn gochel rhag effeithiau posib chwyddiant.

Y Strategaeth Fuddsoddi: trefn hirdymor o ddyrannu asedau mewn amryw ddsbarthiadau gan ystyried amcanion y Gronfa a'r ymagwedd at risg.

Datganiad y Strategaeth Fuddsoddi: datganiad sy'n disgrifio'r prif egwyddorion ar gyfer penderfynu ynghylch buddsoddi (gan gynnwys y dyraniad strategol hirdymor) a rheoli'r Gronfa, a'r polisi a ddatblygwyd i sicrhau y gweithredir yr egwyddorion hynny.

Buddsoddiadau a Gymhellir gan Rwymedigaethau: Dull o fuddsoddi sy'n gymysgedd o amryw giltiau, sy'n golygu y gall y Gronfa ddiogelu rhan o'i hasedau rhag newidiadau mewn rhwymedigaethau er mwyn gwarchod rhag newidiadau mewn cyfraddau llog a/neu ddisgwyliadau'r farchnad ynghylch chwyddiant y Mynegai Prisiau Manwerthu.

Achos *Lloyds Bank* (2018): Ar 28 Hydref 2018 rhoes yr Uchel Lys ddyfarniad o bwys ynghylch cydraddoli Isafsymiau Pensiwn Gwarantedig (yn achos *Lloyds Banking Group Pensions Trustees Limited v. Lloyds Bank plc ac eraill*). Yn ôl y dyfarniad hwn mae ymddiriedolwyr cynlluniau pensiwn dan ddyletswydd gyfreithiol i gydraddoli'r buddion Isafswm Pensiwn Gwarantedig y mae'r cynllun yn eu darparu er mwyn cael gwared â'r anghydraddoldeb rhwng dynion a menywod.

Dyfarniad McCloud: Mae hyn yn cyfeirio at yr achosion cyfreithiol cysylltiedig Sargeant a McCloud, lle dyfarnwyd fod y trefniadau diogelu trosiannol (a ddarparwyd i aelodau hŷn pan ddiwygiwyd cynlluniau pensiynau gwasanaethau cyhoeddus yn 2014/15) yn gwahaniaethu'n anghyfreithlon ar sail oedran.

Rhwymedigaethau Gwasanaeth yn y Gorffennol: dyma werth presennol y buddion y mae'r aelodau wedi'u cronni hyd y dyddiad prisio. Asesir hyn ar sail cyfres o dybiaethau y mae'r Awdurdod Gweinyddu a'r Actiwari'n cytuno arnynt.

Canradd: dull o roi sgôr i gyfres o ganlyniadau a'u gosod yn eu trefn. Er enghraifft, mae canlyniad yn y degfed canradd yn golygu na ddisgwyllir ond i 10% o'r canlyniadau fod cystal â'r degfed canradd neu'n well, a disgwyllir fod 90% o'r canlyniadau'n waeth.

Rhagdalau: cyflogwyr yn talu eu cyfraniadau i'r Gronfa'n gynt na'r dyddiad y mae'r Actiwari wedi'i bennu. Gostyngir y swm a delir o gymharu â'r swm ardystiedig i gydnabod y taliad cynnar.

Gwerth Presennol: gwerth y taliadau buddion a ragwelir, wedi'u disgowntio'n ôl i'r dyddiad prisio.

Cyfradd sylfaenol cyfraniad y cyflogwyr: gweler y diffiniad o Gyfradd Gyfraniadau Sylfaenol y Cyflogwr.

Tybiaeth Ddarbodus: tybiaeth y mae tebygolrwydd mwy na 50/50 o'i gwireddu; hynny yw, mae'r canlyniad yn fwy tebygol o fod yn fwy na'r hyn a dybir ac nid yn llai. Mae'n ofynnol yn ôl y Ddeddfwriaeth a'r Canllawiau bod y tybiaethau a wneir yn gyffredinol ar gyfer prisiad actiwaraidd yn rhai darbodus.

Gwir Gyfradd Enillion neu Wir Gyfradd Disgownt: cyfradd enillion neu ostyngiadau heb gynnwys chwyddiant y Mynegai Prisiau Defnyddwyr.

Cynllun Adennill: os yw lefel cyllido unrhyw gyflogwr yn fwy neu'n llai na 10% ar y dyddiad prisio (hynny yw, bod asedau'r cyflogwr hwnnw'n fwy neu'n llai na'r rhwymedigaethau), efallai y bydd angen cynllun adennill er mwyn dychwelyd i lefel cyllido o 100% dros gyfnod penodol; hynny yw, adennill y diffyg neu wario unrhyw warged ("y cyfnod adennill", fel y'i diffinnir yn Natganiad y Strategaeth Gyllido). Bydd y cynllun adennill yn pennu'r cyfraniadau eilaidd y mae'n ofynnol i'r cyflogwr eu talu yn ystod y cyfnod adennill. Gall cyfraniadau eilaidd fod yn bositif neu'n negyddol (hynny yw, eu gosod yn erbyn costau a fydd yn cronni yn y dyfodol) ond ni chyfyngir ar swm y cyfraniadau Eilaidd negyddol a bennir, fel y nodir ym mholisi'r Gronfa.

Sail Gyllido neu Sail Bwrdd Cyngori'r Cynllun Pensiynau Llywodraeth Leol: cyfres o dybiaethau actiwaraidd y mae Bwrdd Cyngori'r Cynllun Pensiynau Llywodraeth Leol yn eu pennu. Y diben yw pennu'r sefyllfa gyllido ar gyfer dull safonedig fel bod modd cymharu â Chronfeydd eraill y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol, ac i gynorthwyo â'r "adolygiad Adran 13" y mae Adran Actiwari'r Llywodraeth yn ei gynnal. Er enghraifft, roedd Sylfaen y Bwrdd Cyngori ar 31 Mawrth 2019 yn seiliedig ar gyfradd disgownt wirioneddol uwchlaw'r Mynegai Prisiau Defnyddwyr o 2.4% y flwyddyn, ac felly gall fod yn sylweddol wahanol i'r tybiaethau actiwaraidd a ddefnyddir wrth gyfrifo diddyledrwydd sefyllfa gyllido'r Gronfa a chanlyniadau cyfraniadau ar gyfer cyflogwyr.

Lefel Cyllido neu Ddiddyledrwydd: y gymhareb rhwng gwerth asedau'r Gronfa a gwerth rhwymedigaethau'r Gronfa wedi'i mynegi ar ffurf canran.

Targed Cyllido Diddyledrwydd: asesiad o werth presennol y buddion a gaiff eu talu yn y dyfodol. Y targed cyllido a ddymunir yw cyflawni lefel diddyledrwydd o 100%; hynny yw, bod yr asedau'n hafal i'r rhwymedigaethau gwasanaeth a gronnwyd ar y dyddiad prisio, wedi'u hasesu ar sail busnes gweithredol.

Cynllun 50/50: yn y Cynllun Pensiwn Llywodraeth leol mae aelodau gweithredol yn cael dewis cronni llai o fuddion yn y Cynllun 50/50, yn gyfnewid am dalu llai o gyfraniadau.



Mercer Limited

4 St Paul's Square, Old Hall Street
Lerpwl L3 9SJ
www.mercer.com

Caiff Mercer Limited ei awdurdodi a'i reoleiddio gan yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol. Wedi cofrestru yng Nghymru a Lloegr dan rif 984275.

Swyddfa Gofrestredig: 1 Tower Place West, Tower Place, Llundain EC3R 5BU

Hawlfraint 2023 Mercer Limited. Cedwir pob hawl.